ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Cynllun Corfforaethol 2007-2010

Rhoi defnyddwyr yn gyntaf

Cyhoeddwyd 2007

Ein Gweledigaeth:

‘Bwyd diogel a bwyta’n iach i bawb’

Ein gwerthoedd:

Mae popeth a wnawn yn adlewyrchu’r weledigaeth hon, a’n gwerthoedd craidd:

- Rhoi’r defnyddiwr yn gyntaf
- Bod yn agored ac yn annibynnol
- Yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth

Ein hegwyddorion ar waith:

Fel sefydliad, cyflogwr ac fel unigolion rydym yn gwerthfawrogi:

- Gonestrwydd, gwrthrychedd ac uniondeb
- Herio ar gyfer gwelliant parhaus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- Amrywiaeth, cydweithredu a pharch

Yr hyn a wnawn:

Fel un o adrannau’r Llywodraeth, corff rheoleiddio annibynnol a chorff diogelu defnyddwyr, rydym yn defnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn gweithio gyda:

- **Busnesau** o’r pridd i’r plât er mwyn eu helpu i gadw defnyddwyr yn ddiogel
- **Awdurdodau lleol a chyrff gorfodi cyfraith bwyd eraill** i’w helpu i gymryd camau cymesur, amserol a phenderfynol
- **Defnyddwyr** i roi gwybodaeth ddibynadwy a chyfredol er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau iach am fwyd



Rhagair y Prif Weithredwr:

Diben craidd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw diogelu iechyd y cyhoedd a lleihau achosion o salwch a gludir gan fwyd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi adolygu'r modd y gallwn gyflawni'r ddau amcan hyn yn fwy effeithiol. Un rhan o'r gwaith hwn fu ail-gastio'r broses cynllunio strategol. Mae'r Cynllun Corfforaethol blynyddol cyntaf hwn yn un o'r newidiadau sy'n deillio o'r gwaith hwn. Mae'n nodi'r ffordd rydym yn bwriadu cyflawni nodau strategol yr Asiantaeth ac yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad rhaglenni ar gyfer 2007/08. Mae'r Cynllun yn sail i'n Cynllun Strategol a ddiweddarwyd ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r olaf yn nodi ein canlyniadau a'n hamcanion ehangach a thymor hwy.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn nodi'r amcanion, y targedau a'r arwyddion a fydd yn dangos ein cynnydd ar draws meysydd prosiect allweddol: diogelwch bwyd, bwyta er iechyd, dewis a rheolaeth fewnol. Caiff ein perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol ei adolygu hefyd ym mhob adroddiad blynyddol.

Mae'r Asiantaeth yn ymrwymedig i fod yn dryloyw ac yn ddidwyll wrth lunio ei pholisïau ac yn ei gweithrediadau bob dydd. Mae'r Cynllun yn ffordd ddiriaethol o ddangos hyn, ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod gan bobl y darlun cliriaf posibl o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud o ran darparu rhaglenni. Mae'n cynnwys rhai o'r gweithgareddau rheoleiddio a gorfodi hanfodol nad ydynt, ym marn rhai rhanddeiliaid, wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y dogfennau eraill a gyhoeddir gennym.

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn adran ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o'r Llywodraeth. Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau busnes a'u symleiddio. Mae'r Cynllun yn deillio o'r gwaith hwn ac yn fodd o ganolbwyntio gweithgareddau, gwneud y defnydd gorau o adnoddau a mesur cynnydd.

Rydym yn ymrwymedig i ddiwylliant o welliant parhaus – gan gyflawni ein hamcanion yn fwy effeithiol a lleihau beichiau gweinyddol yn unol â rhaglen Rheoleiddio Gwell y Llywodraeth.

Mae partneriaeth yn hanfodol

Mae ein hamcanion yn amcanion a rennir. Rydym yn gweithio'n agos gyda llawer o gydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid gan gynnwys adrannau eraill o Lywodraeth y DU, llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, awdurdodau lleol, cynhyrchwyr bwyd, dosbarthwyr a manwerthwyr, sefydliadau anllywodraethol, defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr. Mae eu gwybodaeth ymarferol a'u cyfraniad yn bwydo i'n gwaith ac yn ein galluogi i gyflawni ein swyddogaethau statudol, diogelu'r cyhoedd a chael y cydbwysedd polisi cywir.

Mae'r Cynllun yn dangos hyn. P'un a ydynt yn lleihau effaith digwyddiadau yn ymwneud â bwyd, yn annog bwyta'n iach, neu'n gwella cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hylendid bwyd, mae'r partneriaethau hyn yn hanfodol i ddarparu'r rhaglen yn llwyddiannus.

Llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol

Mae ein gwaith hefyd yn dibynnu ar feithrin ffydd a chadarnhau enw da'r Asiantaeth am roi cyngor credadwy ac annibynnol ar faterion fel gwybodaeth ddeietegol a maeth.

Rydym yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ceisio cyngor gan arbenigwyr gwyddonol annibynnol, gan fireinio'r cyngor hwnnw yng ngoleuni gwaith ymchwil newydd. Yna caiff y wybodaeth hon ei throsi'n bolisïau cadarn sy'n helpu pobl i wneud dewisiadau bwyta diogel ac iach.

Mae ein strategaeth clefydau a gludir gan fwyd, ein gwaith gyda'r diwydiant ar ail-fformiwleiddio bwyd a hyrwyddo labeli goleuadau traffig ar flaen pecynnau yn enghreifftiau o'r broses hon. Mae'r camau hyn, a'r amrywiaeth o fentrau cysylltiedig a nodir yma, yn sicrhau gwelliannau cam wrth gam ym maes diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd.

Corff rheoleiddio effeithiol a chymesur

Wrth ddarparu'r rhaglen hon, ein nod yw dilyn egwyddorion cymesuredd, atebolrwydd a chysondeb wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau rheoleiddiol. P'un a yw'n negodi newidiadau i labelu bwyd â phartneriaid yr UE, rhoi Rheoliadau Hylendid Bwyd yr UE ar waith yn y DU, neu asesu prosiectau peilot newydd cyffrous fel Scores on the Doors, rydym yn parhau'n driw i'r egwyddorion hyn.

Bod yn gynaliadwy

Byddwn hefyd yn ystyried effeithiau ein gwaith a'n penderfyniadau ar ddatblygu cynaliadwy, drwy gynnal asesiadau effaith reoleiddiol yn rheolaidd. Byddwn yn asesu effaith mentrau newydd neu bolisïau cyfredol ac yn symud tuag at sicrhau bod yr Asiantaeth yn gweithredu yn y ffordd fwyaf cynaliadwy.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ffordd o ddangos ein nodau, ein hamcanion a'n gwerthoedd. Mae'n broses barhaus. Byddwn yn monitro ein perfformiad yn erbyn y meini prawf hyn ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar ba mor dda rydym yn ei wneud.

John Harwood – Prif Weithredwr

CYNNWYS

CYNLLUN STRATEGOL 2005-2010

Pennod 1

Cyflwyniad

- Y Cynllun Corfforaethol
- Amdanom ni
- Yr hyn a wnawn
- Rheoli ein hadnoddau

Pennod 2

Diogelwch bwyd

- Salwch a gludir gan fwyd
- BSE a TSEs
- Halogion
- Gweithio gyda'r diwydiant bwyd ar ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch bwyd
- Alergedd ac anoddefiad

Pennod 3

Bwyta er iechyd

- Newid deiet pobl
- Gwybodaeth faethol a chyngor deietegol
- Newid y ffordd y caiff bwyd ei hyrwyddo i blant
- Gwella bwyd mewn ysgolion a sefydliadau
- Mentrau bwyd lleol

Pennod 4

Dewis

- Labelu a rhoi gwybodaeth
- Twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon

Pennod 5

Ein dulliau cyflawni

- Rheoli'r sefydliad
- Ein gwerthoedd craidd
- Ein rôl fel corff rheoleiddio
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cyflawni gwerth am arian
- Cyflawni mewn ffordd gynaliadwy
- Datblygu ein pobl

Atodiad

Atodiad A

- Cylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn perthynas â bwyd

Atodiad B

- Gwybodaeth am berfformiad

Pennod 1

Cyflwyniad



Y Cynllun Corfforaethol

1.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2007-2010 yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni ein nodau strategol[1]. Mae'n gynllun treigl 3 blynedd a gaiff ei ddiweddaru a'i gyhoeddi bob blwyddyn. Mae'n canolbwyntio ar ein hymrwymiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007/08.

1.2 Dengys tabl yn Atodiad B y targedau a'r dangosyddion perfformiad y byddwn yn mesur ein cynnydd yn eu herbyn o dan ein themâu strategol allweddol sef diogelwch bwyd, bwyta er iechyd a dewis. Mae "Ein dulliau cyflawni" yn darparu fframwaith sy'n sail i'n gwaith. Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad ar ddiwedd bob blwyddyn yn adroddiad blynyddol yr FSA.

Amdanom ni

1.3 Mae'r Asiantaeth yn gorff i'r DU gyfan ac yn adran anweinidogol o'r Llywodraeth sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion ac a gaiff ei llywodraethu gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd.

1.4 Mae diogelwch a safonau bwyd yn faterion datganoledig ac rydym yn atebol i Senedd San Steffan ac i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy'r Gweinidogion Iechyd perthnasol. Mae swyddfeydd yr FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn sicrhau y caiff ein blaenoriaethau eu cyflawni o fewn cyd-destun pob gwlad. Mae gan bob swyddfa ei meysydd gwaith penodol ei hun ac mae'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon yn rhoi cyngor a gwybodaeth i ni am faterion diogelwch a safonau sy'n ymwneud â phob gwlad.

1.5 I ategu'r Cynllun Corfforaethol hwn, mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cynhyrchu eu blaengynlluniau eu hunain mewn fformat y cytunwyd arno gan eu senedd neu eu cynulliad.

1.6 Y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yw ein Hasiantaeth Weithredol. Nod yr MHS yw diogelu iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid mewn lladd-dai drwy orfodi deddfwriaeth yn effeithiol. Ei brif swyddogaethau yw darparu gwasanaeth archwilio cig i bob safle cig trwyddedig, a sicrhau y caiff y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer cynhyrchu cig yn hylan a lles anifeiliaid mewn lladd-dai eu cynnal. Mae'n cyhoeddi ei gynllun busnes ei hun[2]. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) yn cyflawni'r swyddogaethau cyfatebol.

1 Mae ein cynllun strategol ar gael yn: www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/strategicplanto2010welsh.pdf
2 Ar gael yn: www.food.gov.uk/foodindustry/meat/mhservice/

Yr hyn a wnawn

1.7 Ein gwaith ni yw diogelu defnyddwyr rhag risgiau iechyd a gwarchod eu buddiannau ymhob mater sy'n gysylltiedig â bwyd, gan gynnwys diod[3].

- Rydym yn trafod cyfraith bwyd yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar ran llywodraeth y DU er mwyn cynrychioli buddiannau'r DU, ac yn gweithio gyda phartneriaid yn Ewrop i ddarparu cyfraith bwyd yr UE sy'n gymesur ac yn effeithiol.
- Ni yw awdurdod cymwys y DU sy'n gyfrifol am roi'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth bwyd a phorthiant anifeiliaid yr UE ar waith. Rydym yn drafftio cyfreithiau'r DU, yn darparu canllawiau a chyngor i fusnesau bwyd ar sut i gydymffurfio orau â'r gyfraith, ac i gyrff gorfodi ar sut i'w gorfodi'n effeithiol.
- Drwy weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, rydym yn sicrhau y caiff pob cyfraith bwyd ei rhoi ar waith yn effeithiol ledled y DU. Rydym yn gweithio trwy'r MHS, gydag awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd a chyrff gorfodi eraill[4], a chydag adrannau o'r llywodraeth ac asiantaethau ledled y DU er mwyn sicrhau y caiff rheoliadau sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd a phorthiant anifeiliaid eu gorfodi i ddiogelu defnyddwyr.
- Rydym yn rhoi gwybodaeth a chyngor eang iawn ar ddiogelwch bwyd a maeth i'r cyhoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol, y diwydiant bwyd, rhannau eraill o'r llywodraeth a'r cyfryngau drwy ein cyhoeddiadau, gwefannau, ymgyrchoedd a digwyddiadau.

1.8 Mae ein gwaith yn seiliedig ar ymchwil helaeth, ymgynghoriadau a chasglu tystiolaeth er mwyn deall y wyddoniaeth.

Rheoli ein hadnoddau

1.9 Ariennir gwaith yr FSA a'r MHS gan Drysorlys EM, a chaiff swyddfeydd yr FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu hariannu gan yr awdurdod datganoledig perthnasol[5].

1.10 Cyfanswm cyllid yr FSA ar gyfer 2007/08 yw £166m. Caiff hwn ei rannu fel a ganlyn:

- £104m – Rhaglen
- £61m – Costau Rhedeg
- £1m – Cyfalaf

3 Gweler Atodiad A am y diffiniad cyfreithiol o fwyd.

4 Megis yr Arolygiaeth Hylendid Llaeth a'r Arolygiaeth Marchnata Wyau.

5 Yn ogystal ag arian gan y Llywodraeth caiff yr FSA incwm drwy waith samplu llaeth a llaethdai, asesiadau ac ymgynghoriadau ar ollyngiadau ymbelydrol, a thrwy archwiliadau hylendid cig.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd fesul Awdurdod Ariannu – 2007/08				
	Costau Rhedeg **£'m**	**Costau'r Rhaglen** **£'m**	**Cyfalaf** **£'m**	**Cyfanswm Cyllid** **£'m**
Asiantaeth Safonau Bwyd San Steffan	53	91	1	145
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru	2	1	–	3
Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban	4	6		10
Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon	2	6	–	8
Cyfanswm Asiantaeth Safonau Bwyd y DU	**61**	**104**	**1**	**166**

1.11 Dengys y siart isod sut y caiff gwariant arfaethedig y rhaglenni, sef £104m, ei ddyrannu ar draws pob un o'r themâu strategol sef diogelwch bwyd, bwyta er iechyd a dewis. Mae'r gwariant arfaethedig ar gyfer "Ein dulliau cyflawni" wedi cael ei ddosrannu ar draws y tair thema.

Gwariant Arfaethedig y Rhaglenni ar gyfer 2007/08 fesul thema strategol



Pennod 2

Diogelwch Bwyd



2.1 Ein blaenoriaeth gyntaf yw sicrhau diogelwch bwyd ac mae gennym gylch gwaith eang ar draws y gadwyn fwyd gyfan – 'o'r pridd i'r plât' – felly rydym yn gweithio gyda chynhyrchwyr sylfaenol (megis ffermwyr), gweithgynhyrchwyr bwyd a phorthiant anifeiliaid, cyfanwerthwyr, manwerthwyr ac arlwywyr. Ond y busnesau sy'n cynhyrchu, yn cludo, yn storio ac yn gwerthu bwyd a phorthiant anifeiliaid sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau diogelwch y bwyd hwnnw.

2.2 Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, awdurdodau porthladdoedd a chyrff gorfodi eraill, sy'n gyfrifol am orfodi'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth diogelwch a safonau bwyd a phorthiant anifeiliaid o ddydd i ddydd.

2.3 Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn chwarae rhan allweddol o ran gorfodi, ac yn ein helpu i ddiogelu'r cyhoedd rhag salwch a gludir gan fwyd drwy orfodi rheoliadau hylendid, arolygu a lles anifeiliaid mewn ffordd deg, cyson ac effeithiol.

2.4 Rydym yn cynnal ymchwiliadau ac erlyniadau o ran achosion posibl o dorri rheolau hylendid a diogelwch bwyd mewn safleoedd a gymeradwywyd.

2.5 Rydym yn comisiynu ac yn ariannu ystod eang o arolygon a gwaith ymchwil gwyddonol[6] ar ddiogelwch cemegol, microbiolegol a radiolegol, yn ogystal â hylendid bwyd, TSEs[7] ac alergeddau i ddarparu'r dystiolaeth wyddonol sydd ei hangen fel sail i'n gwaith. Er enghraifft:

- sicrhau rheoliadau priodol i ddiogelu defnyddwyr, yn seiliedig ar asesiad o risg; a
- ein helpu i benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd ar unwaith i ddiogelu defnyddwyr pan fydd risgiau bwyd newydd yn codi neu pan fydd risgiau bwyd yn dechrau dod i'r amlwg.

2.6 Mae gennym hefyd swyddogaeth warchodol o ran diogelu bwyd wrth awdurdodi a goruchwylio plaladdwyr, meddyginiaethau milfeddygol a bioladdwyr[8]. Rydym yn ymgynghori â rheoleiddwyr meddyginiaethau milfeddygol, plaladdwyr a bioladdwyr ar unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd, neu unrhyw drafodaethau rheoleiddiol cenedlaethol neu'r UE.

2.7 Rydym yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar arferion diogelwch bwyd i fusnesau a defnyddwyr, yn ogystal â chymryd camau i fynd i'r afael â digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch bwyd a phorthiant anifeiliaid pan fyddant yn codi.



6 Gweler ein Strategaeth Wyddoniaeth 2005-2010 – www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/sciencestrategy.pdf

7 Enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEs). Mae TSEs yn cynnwys clefyd y crafu ymhlith defaid a chlefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD) ymhlith pobl. Yn 1996, nodwyd amrywiolyn newydd o CJD (vCJD) ymhlith pobl ac mae'r mwyafrif o arbenigwyr yn cytuno mai dod i gysylltiad â BSE yw'r achos mwyaf tebygol o vCJD.

8 Defnyddir bioladdwyr i reoli unrhyw organebau niweidiol neu annymunol mewn ffordd gemegol neu fiolegol.

2.8 **Ymhlith ein hamcanion mae:**

- lleihau achosion o salwch a gludir gan fwyd ymhellach
- darparu rheolaethau BSE[9] a TSE cymesur yn seiliedig ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf
- lleihau'r risgiau i ddefnyddwyr yn sgîl halogi bwyd[10]
- meithrin a chynnal ymddiriedaeth rhanddeiliaid yn y ffordd yr ydym yn trin materion diogelwch bwyd
- datblygu polisïau a safonau priodol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch a dewis ar gyfer defnyddwyr ag alergeddau bwyd ac anoddefiad bwyd.

Salwch a gludir gan fwyd

2.9 Drwy'r Strategaeth Clefydau a Gludir gan Fwyd, rydym ni a'n partneriaid drwy'r gadwyn fwyd gyfan wedi helpu i leihau achosion o glefydau a gludir gan fwyd 19% ers 2000. Er mwyn lleihau nifer yr achosion hyn ymhellach, mae ein gweithgareddau'n canolbwyntio ar leihau achosion o halogi microbiolegol megis Campylobacter mewn ieir a Salmonela mewn moch, gan wella ymwybyddiaeth o egwyddorion hylendid bwyd yn y cartref. Er mwyn gwneud hyn rydym yn gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth, y diwydiant bwyd, awdurdodau gorfodi, a thrwy ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cynnal arolwg manwerthu o ieir ar gyfer y niferoedd sy'n cael prawf cadarnhaol ar gyfer *Campylobacter*
- Datblygu mesurau sylfaenol ac opsiynau ar gyfer monitro gostyngiadau yn yr achosion o *Salmonela* mewn moch
- Ymgynghori â rhanddeiliaid ar gynigion ar gyfer mesurau hylendid newydd mewn lladd-dai
- Datblygu a gwella'r rhaglen *Bwyd mwy diogel gwell busnes*[11] – gan roi canllawiau i fusnesau bach i'w helpu i wella safonau hylendid, gan gynnwys lansio canllawiau ar gyfer dulliau coginio Tsieineaidd ac Indiaidd a DVD rhyngweithiol mewn nifer o wahanol ieithoedd i helpu rheolwyr a staff
- Rhoi grantiau i Awdurdodau Lleol i helpu i ariannu gwaith i weithredu *Bwyd mwy diogel gwell busnes* mewn busnesau bwyd bach, gwella cydymffurfiaeth â rheoliadau hylendid a rhoi gwell diogelwch i ddefnyddwyr
- Gwerthuso effeithiolrwydd ein cynllun gwobrwyo hylendid bwyd i arlwywyr
- Adolygu'r rheolaethau cig presennol a datblygu system newydd yn seiliedig ar archwilio ar gyfer rheolaethau[12]
- Cynnal astudiaethau peilot ar gyfer y rhannau o'r ail astudiaeth Clefydau Heintus yn y Coluddyn y bwriedir eu cynnal ac a gynhaliwyd eisoes
- Parhau â gwaith cyfathrebu, megis trefnu ymgyrchoedd yn y cyfryngau a rhoi cyngor ar ddiogelwch a hylendid bwyd.

BSE a TSEs

2.10 Mae rheolaethau caeth ar waith yn y DU i ddiogelu pobl rhag BSE. Rydym yn monitro'r rheolaethau hyn ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw achosion o dorri'r rheolaethau, yn ogystal â'r camau gweithredu a gymerwyd i atal methiannau pellach.

2.11 Rydym am weithio i sicrhau bod rheolaethau BSE a TSE yn y gadwyn fwyd yn seiliedig ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth wyddonol ddiweddaraf.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Comisiynu gwaith ymchwil ar brofion diagnostig TSE
- Cwblhau ein hadolygiad o bolisi wrth gefn yr FSA ar gyfer BSE a defaid
- Cwblhau ein cynlluniau wrth gefn i ymateb i ganfyddiad posibl bod clefyd y crafu annodweddiadol yn peri risg i iechyd pobl.

9 Mae enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE) yn glefyd prion sy'n perthyn i deulu TSEs.
10 Halogion cemegol, radiolegol, microbiolegol a ffisegol.
11 *Cooksafe* yn yr Alban a *Safe Catering* yng Ngogledd Iwerddon.
12 Nodir y targed yn yr adran "Ein dulliau cyflawni" yn Atodiad B, o dan yr amcan i adolygu opsiynau adennill costau.

Halogion

2.12 Mae halogion[13] yn mynd i borthiant anifeiliaid a bwyd mewn sawl ffordd – mae rhai yn bresennol yn naturiol, mae eraill yn deillio o weithgaredd pobl a all fod yn fwriadol ac yn dwyllodrus.

2.13 Mae gan bob rhan o'r gadwyn fwyd gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau diogelwch y bwyd a werthir ganddynt. Mae angen i bawb sy'n rhan o'r broses o gynhyrchu, storio, dosbarthu a gwerthu bwyd a phorthiant anifeiliaid, ynghyd â'r gwaith o reoli'r broses honno, gydweithio i sicrhau diogelwch y bwyd a gaiff ei werthu yn y DU. Mae'r Asiantaeth yn gweithio gyda'r diwydiant bwyd i leihau i'r eithaf y risgiau i ddefnyddwyr sy'n deillio o halogion mewn porthiant anifeiliaid a bwyd ar bob cam o'r gadwyn.

2.14 Rydym yn asesu'r risgiau posibl i fwyd sy'n deillio o ollyngiadau a gynllunnir o safleoedd niwclear, gan fonitro a chyhoeddi gwybodaeth flynyddol am yr effaith wirioneddol. Rydym yn parhau i reoli'r cyfyngiadau parhaus ar symud anifeiliaid a gyflwynwyd yn dilyn digwyddiad Chernobyl yn 1986.

2.15 Rydym yn asesu risgiau i ddiogelwch bwyd ac yn rhoi cyngor i'r cyhoedd pan geir arllwysiadau neu danau cemegol mawr, fel y tân ym mhurfa olew Buncefield yn 2006. Bob blwyddyn, rydym hefyd yn rheoli cannoedd o ddigwyddiadau sy'n deillio o achosion microbiolegol o halogi bwyd, megis yr achosion o E. coli a gafwyd yng Nghymru yn 2005 a'r achosion o halogi siocled â Salmonela yn 2006.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Parhau i ddatblygu dulliau profi cemegol er mwyn monitro biotocsin mewn pysgod cregyn
- Gwerthuso gwaith samplu a gwyliadwriaeth bwydydd a fewnforiwyd yn 2006/07 a datblygu rhaglen wedi'i thargedu ar gyfer y flwyddyn nesaf
- Datblygu a chynnal codau ymarfer i leihau'r risg i ddefnyddwyr sy'n deillio o halogion mewn bwyd yn seiliedig ar ganlyniadau ein rhaglenni gwaith ymchwil.

13 Halogion cemegol, radiolegol, microbiolegol a ffisegol

Gweithio gyda'r diwydiant bwyd ar ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch bwyd

2.16 Mae angen clir i leihau effaith digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch bwyd. Gall digwyddiadau yn ymwneud â bwyd beri risgiau i iechyd pobl, maent yn tanseilio hyder defnyddwyr mewn diogelwch bwyd, a gallant fod yn gostus i economi'r DU. Er mwyn gweithio'n llwyddiannus gyda'r diwydiant bwyd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digwyddiadau yn ymwneud â bwyd, mae'n hanfodol ein bod yn ennyn lefel uchel o ymddiriedaeth. Mae gwaith y Tasglu Digwyddiadau yn ymwneud â Bwyd[14] wedi dangos bod angen gwella ymddiriedaeth y diwydiant yn y ffordd yr ymdriniwn â materion diogelwch bwyd. Byddwn yn gweithio i gynyddu'r ymddiriedaeth hon drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid i drafod sut i atal digwyddiadau ac ymateb yn effeithiol iddynt, gan gynnwys sut y gallwn gydweithio i nodi materion diogelwch bwyd sy'n dod i'r amlwg a chodi ymwybyddiaeth o sut y byddwn yn rheoli digwyddiadau yn ymwneud â bwyd.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ddigwyddiadau
- Datblygu dulliau chwilio'r gorwelion i nodi risgiau newydd a risgiau sy'n ailymddangos mewn partneriaeth â'r diwydiant bwyd; a datblygu cynnig ar gyfer rhannu data er mwyn nodi risgiau
- Datblygu rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn adolygu digwyddiadau a chynllunio ymarferion cysylltiedig
- Datblygu rhaglen ymgysylltu â'r diwydiant bwyd yn lleol i drafod ffyrdd o atal digwyddiadau yn ymwneud â bwyd.

Alergedd ac anoddefiad

2.17 Mae ein hymagwedd tuag at alergedd ac anoddefiad bwyd yn cynnwys tair prif nod. Yn gyntaf, ariannu gwaith ymchwil a fydd yn helpu i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o alergedd ac anoddefiad bwyd. Yn ail, atgyfnerthu'r rheolau labelu bwyd er mwyn helpu pobl y mae angen iddynt osgoi rhai cynhwysion penodol; ac yn drydydd, helpu i godi ymwybyddiaeth o alergedd ac anoddefiad bwyd ymhlith arlwywyr.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Hyrwyddo ein canllawiau ar wybodaeth alergen ar gyfer bwydydd nad ydynt wedi'u pecynnu ymlaen llaw.
- Cyflwyno cyrsiau hyfforddi ar alergen i swyddogion gorfodi a swyddogion safonau masnach i helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag alergedd bwyd, ac i'w helpu i roi cyngor gwell i fusnesau bwyd ar sut i reoli alergenau

14 Gweler: www.food.gov.uk/foodindustry/industrycommittees/taskforcebranch/

Pennod 3

Bwyta er iechyd

3.1 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhannu cyfrifoldeb am faeth ag adrannau iechyd y DU. Mae lleihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet, drwy helpu defnyddwyr i gyflawni a chynnal deiet cytbwys iachach, yn rhan allweddol o'n strategaeth hyd at 2010. Rydym yn rhoi gwybodaeth a chyngor maethol awdurdodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac yn hyrwyddo'r dewisiadau iachach sydd ar gael ac yn annog pobl i'w dewis.

3.2 Mae gan ffordd o fyw ran hanfodol i'w chwarae o ran gwella canlyniadau iechyd pobl. Er mwyn cyflawni'r newidiadau yr ydym am eu gweld yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag adrannau eraill o'r llywodraeth (yn arbennig yr adran iechyd a'r adran addysg), awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill, y GIG, ysgolion, defnyddwyr a'u cynrychiolwyr, a'r diwydiant bwyd.

3.3 Mae hyrwyddo a chyflenwi bwyd yn ddiwydiant byd-eang ac mae clefydau sy'n gysylltiedig â deiet yn bwysig ymhob gwlad. Felly mae angen i ni gydweithio ag eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn yn rhyngwladol.

3.4 Ein hamcanion yw:

- helpu i leihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet
- galluogi defnyddwyr i ddewis deiet iachach
- annog ymwybyddiaeth o ddeiet cytbwys
- annog gwybodaeth faethol glir a chywir ar labeli
- cefnogi cyrff cymunedol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ledled y DU, gan eu helpu i gyflwyno mentrau bwyd lleol effeithiol sy'n diwallu anghenion eu cymuned
- ategu gwaith yr adrannau iechyd i newid y ffordd y caiff bwyd ei hyrwyddo i blant
- helpu adrannau iechyd ac adrannau perthnasol eraill i bennu safonau ar gyfer darparu prydau iach o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus[15] ac arolygu'r safonau hynny yn rheolaidd a chefnogi eu gwaith i annog ysgolion i fabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan tuag at hylendid bwyd, deiet, maeth a dewisiadau bwyd.

15 gan gynnwys ysgolion, cartrefi gofal, ysbytai a charchardai.

Newid deiet pobl:

Galluogi defnyddwyr i ddewis deiet iachach a helpu i leihau'r clefydau sy'n gysylltiedig â deiet

3.5 Ers 2005, gwelwyd cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl halen mewn deiet ac mae'r diwydiant wedi gwneud llawer wrth leihau lefel yr halen ar draws amrywiaeth eang o fwydydd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â rhanddeiliaid i gyflawni'r targed lleihau halen yn ein Cynllun Strategol, gan weithio gyda'r diwydiant i leihau lefelau halen mewn bwydydd a weithgynhyrchir, gan gynnwys gwasanaethau bwyd[16], a chyda phob rhanddeiliad i wella a chynnal ymwybyddiaeth defnyddwyr o bwysigrwydd halen o ran iechyd a sut i leihau faint o halen a fwyteir.

3.6 Rydym hefyd wedi gweld rhagor o gynnydd o ran lleihau braster a siwgr. Rydym yn awyddus i adeiladu ar y gwaith hwn ac rydym yn gweithio gyda'r diwydiant bwyd a rhanddeiliaid eraill ar strategaeth i leihau faint o fraster dirlawn a fwyteir ac i annog pobl i sicrhau cydbwysedd egni. Mae hyn yn ystyried mentrau gan adrannau iechyd ac adrannau eraill o'r llywodraeth, sy'n anelu at gynyddu lefelau ymarfer corff a/neu leihau nifer y calorïau a fwyteir. Mae'r rhain yn cynnwys strategaeth ordewdra'r Adran Iechyd, strategaeth fwyd arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru "Strategaeth Maeth Bwyd a Lles i Gymru", strategaeth yr Alban "Eating for Health: Meeting the challenge" a Strategaeth Ordewdra Gogledd Iwerddon, "Fit Futures".

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Treialu methodolegau peilot ar gyfer y Strategaeth Deiet a Maeth Genedlaethol
- Cynnal gwaith ymchwil a gwyliadwriaeth mewn perthynas â deiet ac anghydraddoldebau yn yr Alban
- Gweithio gyda chwmnïau i'w hannog i ail-lunio cynnyrch ac i ddarparu data ar achosion o leihau halen
- Gwaith cyfathrebu parhaus ag eraill ar brosiectau i atgyfnerthu'r negeseuon sy'n deillio o'n Hymgyrch Halen
- Gweithio gydag adrannau iechyd ac addysg i ddatblygu strategaeth ar y bwydydd a fwyteir sy'n cynnwys braster dirlawn ac sy'n rhoi egni
- Cynnal gwaith ymchwil i ddealltwriaeth defnyddwyr o arwyddocâd y lefelau o fraster dirlawn a fwyteir.

16 Megis bwyd a gaiff ei weini mewn bwytai, ysbytai, ysgolion a sefydliadau eraill.

Gwybodaeth faethol a chyngor deietegol:

Annog gwybodaeth faethol gywir ar labeli

Annog ymwybyddiaeth o ddeiet cytbwys

3.7 Mae angen cyngor deietegol a gwybodaeth glir a hygyrch am gynnyrch ar ddefnyddwyr i'w galluogi i ddewis deiet iach. Mae'r Asiantaeth yn rhoi cyngor deietegol yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael. Rydym yn gofyn am gyngor gan arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth, i'n helpu i ddatblygu'r cyngor hwn a'i goethi. Rydym hefyd yn comisiynu ein gwaith ymchwil gwyddonol ein hunain, ac yn arolygu'r bwyd a fwyteir gan y boblogaeth a'r lefelau maeth cysylltiedig.

3.8 Mae'r Asiantaeth hefyd yn annog labelu clir i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau bwyta iach. Yn 2005, gwnaethom lansio cynllun labelu 'goleuadau traffig' gwirfoddol ar gyfer blaen pecynnau. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cynnal gwerthusiad annibynnol o effaith y cynllun, a chynlluniau eraill sy'n gysylltiedig â labelu blaen pecynnau, ar ymddygiad a dealltwriaeth defnyddwyr.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Datblygu ac ymgynghori ar y telerau ar gyfer y gwerthusiad annibynnol o labelu 'blaen pecynnau'
- Gweithredu rheolau newydd yr UE a rhoi canllawiau ar faeth a honiadau iechyd
- Datblygu safbwynt negodi'r DU ar gynigion labelu maeth yr UE
- Ymgynghori ar gyngor y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN) ar lefel yr haearn a fwyteir
- Cyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Deiet a Maeth Incwm Isel
- Rhoi cyngor i Weinidogion ar sut i wella lefel yr asid ffolig sydd yn niet merched ifanc.

Newid y ffordd y caiff bwyd ei hyrwyddo i blant

3.9 O ganlyniad i'n hadolygiad o'r dystiolaeth am yr effaith a gaiff gweithgareddau hyrwyddo ar ddeiet plant, cafwyd cytundeb drwy'r llywodraeth gyfan bod angen gweithredu. Adrannau iechyd y DU sydd bellach yn arwain y maes polisi hwn a byddwn yn cefnogi eu gwaith. Gweithredodd model proffilio maeth yr Asiantaeth fel sail i gyfyngiadau newydd Ofcom ar hysbysebion darlledu a byddwn yn dechrau'r adolygiad arfaethedig o'r model hwn eleni.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cyfrannu at ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau newidiadau o ran natur a chydbwysedd gweithgareddau hyrwyddo wedi'u targedu at blant. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at y gwaith o reoleiddio hysbysebion teledu a anelir at blant, a chyfrannu at y Fforwm Hysbysebu a Hyrwyddo Bwyd a Diod i atgyfnerthu'r darpariaethau presennol ar draws cyfryngau darlledu a chyfryngau eraill nad ydynt yn ymwneud â darlledu.

Gwella bwyd mewn ysgolion a sefydliadau

3.10 Mae cyflawni gostyngiad o ran nifer yr achosion o glefydau sy'n gysylltiedig â deiet yn her aruthrol i'r llywodraeth. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio'n agos ag adrannau iechyd ac addysg ledled y DU a chyda rhanddeiliaid i wella prydau bwyd o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus megis ysgolion, cartrefi gofal, ysbytai a charchardai.

3.11 Rydym wedi datblygu deunyddiau addysgu i ysgolion. Byddwn yn parhau i noddi Bws Coginio'r FSA i helpu ysgolion i addysgu plant am fwyta'n iach a hylendid bwyd, ac yn rhoi blaenoriaeth i ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd mawr.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cyhoeddi cymwyseddau bwyd a maeth diwygiedig i ysgolion i helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

Mentrau bwyd lleol

3.12 Rydym yn awyddus i sicrhau bod dewisiadau bwyta'n iach yn haws i bawb. Rydym eisoes yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i helpu i roi cynlluniau gweithredu maeth cenedlaethol ar waith yng ngwahanol wledydd y DU. Er enghraifft, yn yr Alban, rydym yn cydweithio'n agos â 'Community Food and Health Scotland'[17] ac yn ariannu dros 300 o fentrau sy'n gysylltiedig â bwyd ledled y wlad.

3.13 Fel rhan o'n strategaeth, rydym yn awyddus i gefnogi mentrau a phrosiectau cymunedol, a chyda'n gilydd, i nodi blaenoriaethau ar gyfer helpu pobl ddifreintiedig a phobl sy'n agored i niwed i wella eu deiet. Er enghraifft, mae 'Food Vision', sef cydweithrediad â Chydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol Awdurdodau Lleol (LACORS) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), yn cefnogi cynigion i ddatblygu a gweithredu prosiectau bwyd sy'n hyrwyddo iechyd a lles y gymuned leol. Rydym ni a'n partneriaid yn defnyddio gwefan 'Food Vision' i sbarduno syniadau a lledaenu arfer da, gan gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl.

3.14 Rydym hefyd wedi sefydlu timau bach mewn pedwar rhanbarth yn Lloegr. Mae hyn yn cynnig pwynt mynediad lleol ac uniongyrchol i'r FSA i'r rheini sy'n rhedeg mentrau ac mae'n gwella ein gallu i gyrraedd prosiectau a'u cynorthwyo.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Datblygu fframwaith i ddiffinio'r ffordd fwyaf buddiol i ni ymgysylltu â phrosiectau lleol.
- Rhoi cyngor a chymorth technegol i staff newydd yr FSA o fewn timau rhanbarthol Lloegr er mwyn hwyluso mentrau maeth lleol effeithiol.

17 www.communityfoodand health.org.uk

Pennod 4

Dewis

4.1 Mae angen gwybodaeth gywir ar ddefnyddwyr fel y gallant wneud dewisiadau hyddysg ac effeithiol am y bwydydd y maent yn eu bwyta. Mae sawl ffactor yn effeithio ar y dewisiadau bwyd y mae pobl yn eu gwneud – dylanwadau diwylliannol, iechyd neu agweddau at iechyd, credoau crefyddol neu foesegol, hanfodion ariannol a chyfleustra.

4.2 Ein rôl ni yw sicrhau bod y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr am fwyd yn gywir ac nad yw'n gamarweiniol. Rydym am alluogi pobl i wneud dewisiadau hyddysg am fwyd a'u helpu i ddewis bwydydd sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Byddwn yn parhau i ddiogelu buddiannau defnyddwyr drwy hyrwyddo arfer gorau wrth ddarparu gwybodaeth.

4.3 Ar y cyd â'n partneriaid ym maes gorfodi cyfraith bwyd, rydym yn gweithio i ddiogelu diogelwch a safonau bwyd i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod systemau rheoli a chosbau digonol i atal gweithredwyr busnesau twyllodrus rhag masnachu ac i gyfyngu ar unrhyw weithgarwch anghyfreithlon pellach pan gaiff ei ganfod.

4.4 Ers 1 Gorffennaf 2006, mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Gwin yr UE. Yn arbennig, mae'n sicrhau bod y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr yn gywir ac nad yw'n gamarweiniol. Bydd yr Asiantaeth yn parhau i weithio gyda'r Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) i sicrhau y bydd yr adolygiad presennol o gyfundrefn gwin yr UE yn arwain at reoliadau newydd sy'n gymesur, yn ymarferol ac y gellir eu gorfodi.

4.5 Ein hamcanion yw:

- galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg
- dwyn pwysau i sicrhau y caiff deddfwriaeth labelu bwyd bresennol y CE ei symleiddio o fewn yr adolygiad Ewropeaidd o labelu, ac annog ffordd o weithredu sy'n rhoi system labelu a gwybodaeth glir i'r defnyddiwr
- sicrhau bod y gwaith o reoleiddio ychwanegion bwyd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, a'i fod yn gymesur, er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud dewisiadau hyddysg
- diogelu defnyddwyr rhag twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon.

Labelu a rhoi gwybodaeth:

Galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg

Symleiddio deddfwriaeth labelu bwyd y CE

Sicrhau bod y broses o reoleiddio ychwanegion bwyd yn gymesur ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael

4.6 Dylai defnyddwyr allu bod yn hyderus yn eu dewis o fwydydd a ble y byddant yn dewis bwyta. Rydym yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am fwyd ar ffurf glir a hygyrch.

4.7 Mae labeli bwyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth, ac maent hefyd yn rhoi gwybodaeth i ddiogelu defnyddwyr, er enghraifft y rheini ag alergeddau neu anoddefiad, neu'r rheini sy'n dewis osgoi rhai cynhwysion penodol am resymau eraill. Pennir y rhan fwyaf o reolau ynghylch labelu yn yr UE a'n gwaith ni yw cynrychioli buddiannau defnyddwyr y DU mewn trafodaethau Ewropeaidd.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cyhoeddi canllawiau ar farchnata a thelerau labelu gwlad y tarddiad
- Gweithio gydag Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban (SEERAD) er mwyn sicrhau y caiff deddfwriaeth labelu Gwlad y Tarddiad o ran cig eidion ei rhoi ar waith yn y sector arlwyo yn yr Alban.
- Gweithio gyda'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cyflwyno cynllun labelu cig eidion gwirfoddol ar gyfer arlwywyr
- Rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer gorau o ran profi bwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau GM
- Gwerthuso'r cynlluniau peilot 'Scores on the Doors' a chynlluniau gwybodaeth hylendid eraill – graddfeydd arolygu a fydd yn helpu pobl i ddewis pa un a ddylent ddefnyddio allfeydd bwyd penodol
- Datblygu, ymgynghori a gweithredu ein polisi gorfodi ar gyfer safonau gwin
- Datblygu safbwynt negodi'r DU o ran labelu bwyd ac ychwanegion bwyd yr UE.

Twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon

4.8 Mae gan dwyll bwyd hanes hir – fwy na thebyg ei fod yn deillio o'r cyfnod y dechreuwyd gwerthu bwyd. Gall achosion difrifol o dwyll bwyd gael effaith andwyol ar hyder defnyddwyr ac enw da'r diwydiant bwyd. Os bydd y bwyd yn anaddas neu wedi'i halogi ac yn debygol o wneud pobl yn sâl, gall effeithio ar iechyd y cyhoedd. Yn ogystal, gall twyll bwyd effeithio'n ddifrifol ar ein gallu i gyflawni ein holl rwymedigaethau strategol drwy arallgyfeirio arian cyhoeddus ac adnoddau staff tuag at ymchwiliadau hir a chymhleth.

4.9 Sefydlwyd y Tasglu Twyll Bwyd gan yr Asiantaeth ym mis Ebrill 2006 i ystyried beth yn rhagor y gellir ei wneud i helpu i fynd i'r afael ag achosion o werthu bwyd anghyfreithlon ac i ddiogelu defnyddwyr. Yn ystod y tair blynedd nesaf, bydd y tasglu yn ystyried pob mater sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar dwyll bwyd ac yn cyflwyno adroddiadau ar y materion hynny, ac yn arbennig, bydd yn ystyried y rheolaethau sydd ar waith ar hyn o bryd a pha un a ydynt yn addas o ran canfod achosion o dwyll bwyd ac atal achosion o'r fath.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cyhoeddi adroddiad y Tasglu Twyll Bwyd a chynllun gweithredu ar argymhellion y Tasglu.

PENNOD 5

Ein dulliau cyflawni

5.1 Mae'r bennod hon yn egluro sut y byddwn yn cyflawni ein gwaith. Mae'n nodi sut y byddwn yn gweithio yn y DU[18]; ledled yr UE ac yn rhyngwladol; gydag ystod o bartneriaid o'r sectorau gorfodi, diwydiannol, cyhoeddus a gwirfoddol; a sut y byddwn yn gwella ein hadnoddau a'n gallu i gyflawni.

5.2 Er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cylch gwaith o fod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol wrth gyflawni ein cyfrifoldebau fel adran anweinidogol o'r Llywodraeth a chorff rheoleiddio annibynnol, ein nod yw:

- bod yn gorff rheoleiddio effeithiol a chymesur, gan ymyrryd i ddiogelu defnyddwyr a'u buddiannau lle nad yw'r farchnad yn effeithiol, a lle y mae'r manteision yn cyfiawnhau camau gweithredu
- adolygu'r trefniadau ar gyfer adennill costau o'r rhannau hynny o'r diwydiant bwyd y mae'r Asiantaeth yn ymgymryd â rheolaethau ar eu cyfer er mwyn symud yn gynyddol tuag at sefyllfa lle y caiff costau eu hadennill yn llawn lle y bo'n briodol ac yn ymarferol
- cyflwyno camau gweithredu effeithiol o ran risgiau i iechyd y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, drwy gydweithio'n well â'n partneriaid ym meysydd gorfodi a busnes ac yn y sector gwirfoddol
- datblygu ymhellach a chyflwyno seilwaith sy'n ein galluogi i gydweithio'n well â sefydliadau'r UE a sefydliadau rhyngwladol
- datblygu ymhellach a chyflwyno seilwaith sy'n ein galluogi i gydweithio'n well â llywodraeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU, a chyda grwpiau lleol a chymunedol
- sicrhau bod yr Asiantaeth yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol amrywiol ac yn cyflawni ei rôl fel un o Adrannau Llywodraeth y DU, gan wneud hynny mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol
- parhau i fod yn sefydliad agored yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ein llais annibynnol i ddiogelu defnyddwyr
- sicrhau mai ni yw'r ffynhonnell cyngor a ddefnyddir amlaf ac yr ymddiriedir ynddi fwyaf ym maes diogelwch bwyd a gwybodaeth am fwyd a maeth
- bod yn gyflogwr da, gan fanteisio i'r eithaf ar ein talent amrywiol a chyflwyno amgylchedd gwaith diogel a chynaliadwy sy'n cydymffurfio â gofynion i gydweithwyr, contractwyr ac ymwelwyr yr Asiantaeth.

18 Iedled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rheoli'r sefydliad

5.3 Fel adran Anweinidogol o'r Llywodraeth caiff yr Asiantaeth Safonau Bwyd ei harwain gan Gadeirydd annibynnol â bwrdd o aelodau anweithredol annibynnol. Maent yn gyfrifol am y cyfeiriad strategol cyffredinol, am sicrhau y caiff rhwymedigaethau cyfreithiol eu bodloni, ac am sicrhau bod penderfyniadau a chamau gweithredu yn ystyried cyngor gwyddonol yn briodol yn ogystal â buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Cefnogir y Bwrdd gan bwyllgorau cynghori yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

5.4 Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi cyngor annibynnol i Weinidogion Iechyd ar faterion sy'n ymwneud â bwyd ac mae'n atebol i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac i Weinidogion Iechyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

5.5 Caiff gweithrediadau'r Asiantaeth o ddydd i ddydd eu rheoli gan y Prif Weithredwr, a'u cefnogi gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol sy'n sicrhau y caiff y polisïau eu rhoi ar waith yn effeithiol ac y caiff y sefydliad ei reoli'n effeithlon. Gwneir hyn drwy brosesau cynllunio busnes, gan gynnwys pennu targedau cyflawni allweddol, y mae'r Bwrdd yn monitro perfformiad y sefydliad yn eu herbyn. Rydym yn adolygu sawl un o'n systemau llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys systemau sy'n cwmpasu rheoli perfformiad, risg a newid, i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu arfer gorau.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Datblygu ein rhaglen Newid busnes i sicrhau bod gennym weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r Asiantaeth dros y 3-5 mlynedd nesaf a rhaglen sydd wedi ei rheoli'n dda i gyflawni hyn.

Ein gwerthoedd craidd

5.6 Mae popeth a wnawn yn adlewyrchu ein gwerthoedd craidd sef rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf, bod yn agored ac yn annibynnol, a bod yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth. Rydym wedi arwain y gwaith o ddatblygu ymagwedd agored, tryloyw ac ymgynghorol tuag at asesu'r risgiau i iechyd y cyhoedd a datblygu polisïau a mesurau i liniaru'r risgiau hynny. Byddwn yn parhau i lunio barn annibynnol, gan geisio ac ystyried y dadleuon a'r dystiolaeth gan ein holl randdeiliaid, a chan ddatblygu ein trafodaethau â defnyddwyr a'u cynrychiolwyr, yn arbennig rhai difreintiedig neu ddiamddiffyn. Mae hefyd yn golygu y byddwn yn parhau i wneud ein penderfyniadau yn agored, gan eu hegluro i bob un yr effeithir arnynt.

5.7 Byddwn yn datblygu ein gwaith ymchwil a'n harolygon yn barhaus i sicrhau bod polisïau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael[19]. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda noddwyr ymchwil eraill (megis adrannau o Lywodraeth y DU, cynghorau ymchwil, y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop) i sicrhau ymagwedd gadarn, wedi'i thargedu tuag at sicrhau tystiolaeth.

19 Gweler ein Strategaeth Wyddoniaeth 2005-2010 yn http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/science strategy.pdf

5.8 Byddwn yn parhau i ategu ein harbenigedd gwyddonol mewnol drwy geisio cyngor annibynnol gan arbenigwyr ledled y byd, yn arbennig drwy ein rhwydwaith o bwyllgorau a gweithgorau cynghori gwyddonol. Maent yn rhoi cyngor, er enghraifft, ar ddiogelwch ychwanegion bwyd, halogion cemegol, meddyginiaethau milfeddygol, ychwanegion deietegol, deunyddiau pecynnu ac ystod o faterion eraill yn ymwneud â bwyd a phorthiant. Rydym hefyd yn parhau i ddefnyddio arbenigedd ymchwil defnyddwyr ac arbenigedd annibynnol ym maes gwyddorau cymdeithasol, economaidd ac ymddygiadol i'n helpu i gyflawni ein hamcanion.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cyhoeddi adroddiad ymchwil ar gynnydd a chyflawniadau gwaith ymchwil gwyddonol a rhaglenni arolwg yr FSA yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol
- Sefydlu Pwyllgor Cynghori Cyffredinol ar Wyddoniaeth a Phwyllgor Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Prif Wyddonydd yr FSA ar y defnydd o wyddoniaeth yn yr FSA
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ystyried modelau amgen a chyflwyno adroddiadau arnynt yng nghyfarfodydd agored y bwrdd

Ein rôl fel corff rheoleiddio

5.9 Rôl yr Asiantaeth yw diogelu iechyd y cyhoedd drwy roi gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr, drwy roi cyngor i'r Llywodraeth ar ddiogelwch a safonau bwyd, drwy reoleiddio ac archwilio a gorfodi (drwy'r MHS a chyrff gorfodi bwyd). Dilynwn y pum egwyddor ar gyfer rheoleiddio da: cymesuredd, atebolrwydd, cysondeb, tryloywder a thargedu. Dilynwn hefyd egwyddorion ein Fframwaith Rheoleiddio[20], a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006 gyda'n Cynllun Symleiddio[21]. Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion rydym yn eu dilyn wrth benderfynu p'un a ddylem ymyrryd â mater, a'r gwahanol opsiynau sydd gennym o ran ymyrryd.

5.10 Nododd adroddiad Adolygiad Hampton 2004 10 nod yr oedd yn ofynnol i gyrff rheoleiddio weithio tuag atynt[22]. Fel rhan o'r gwaith a ddeilliodd o Adolygiad Hampton, yn 2005-06 cynhaliodd yr Athro Richard Macrory adolygiad o sancsiynau a chosbau rheoleiddio. Roedd adroddiad terfynol yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006, yn cynnwys cyfres o gosbau, egwyddorion a fframwaith ar gyfer sancsiynau rheoleiddio[23]. Wrth ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau rheoleiddio, rydym yn ystyried pob un o'r egwyddorion uchod, yn ogystal â cheisio lleihau'r baich gweinyddol a gwneud rheoleiddio mor syml â phosibl, gan ddiogelu defnyddwyr yn effeithiol ar yr un pryd.

20 Ar gael yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/FSAregframework.pdf

21 Mae Cynllun Symleiddio 2006/07 yr FSA yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o fentrau sy'n ei gwneud yn haws ac yn symlach i gydymffurfio â rheoliadau bwyd. Ar gael yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/simplan.pdf

22 Mae'r adroddiad ar gael yn www.hm-treasury.gov.uk/media/A63/EF/bud05hamptonv1.pdf

23 Mae'r adroddiad ar gael yn www.cabinetoffice.gov.uk/REGULATION/reviewing_regulation/penalties/index.asp

5.11 Rydym yn cynnal adolygiad mawr o fodelau cyflawni ar gyfer rheolaethau swyddogol yn y sector cig er mwyn sicrhau bod y gwaith o orfodi hylendid cig yn rhoi'r diogelwch angenrheidiol i ddefnyddwyr mewn ffordd wedi'i thargedu, yn seiliedig ar risg ac yn gymesur, sy'n cynnig gwerth am arian i weithredwyr a threthdalwyr. Rydym hefyd yn arwain adolygiad polisi mawr o newidiadau i'r ymagwedd tuag at orfodi cyfraith bwyd gan awdurdodau lleol o'r enw Newidiadau i Gamau Gorfodi Awdurdodau Lleol[24]. Y nod yw darparu ymyriadau hyblyg i awdurdodau lleol ar gyfer gwella cydymffurfiaeth busnesau, gan eu galluogi i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Datblygu fframwaith perfformiad a chynllun gwella i sicrhau ein bod yn bodloni safonau corff rheoleiddio o'r radd flaenaf
- Lleihau'r baich gweinyddol
- Cyhoeddi Cynllun Symleiddio treigl blynyddol
- Rhoi Rheolaethau Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid Swyddogol ar waith, fel rhan o'n hymgyrch i leihau costau rheolaethau a delir o gronfeydd cyhoeddus
- Adolygu'r rheolaethau cig presennol a datblygu system yn seiliedig ar archwilio ar gyfer rheoliadau hylendid newydd
- Rhoi'r Prosiect Newidiadau i Gamau Gorfodi Awdurdodau Lleol (CLAE) ar waith.

Gweithio mewn partneriaeth

5.12 Mae ein hymagwedd agored a thryloyw wedi chwarae rhan bwysig wrth wella hyder y cyhoedd mewn diogelwch bwyd a chyngor iechyd deietegol y Llywodraeth. Mae angen i ni gynnal a datblygu'r ymddiriedaeth honno. Byddwn yn parhau i weithio gydag ystod o sefydliadau partner ledled y DU a chyda'r cyfryngau er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i ymddiried yn llwyr yn ein gwybodaeth a'n cyngor a'u bod yn fodlon arnynt.

5.13 Dim ond drwy bartneriaethau gwaith da y gallwn gyflawni ein rôl sylfaenol o ddiogelu defnyddwyr y DU rhag bwyd anniogel, a pharhau i chwarae rhan arweiniol i wella iechyd y genedl drwy annog defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy hyddysg am fwyta'n iach. Rydym yn gweithio'n agos gyda:

- gwledydd eraill a sefydliadau rhyngwladol yn Ewrop a ledled y byd
- adrannau eraill o Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig
- awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd a chyrff gorfodi eraill, a'u cynrychiolwyr
- cynhyrchwyr bwyd, dosbarthwyr, manwerthwyr ac arlwywyr, a chyrff masnach
- grwpiau defnyddwyr a sefydliadau gwirfoddol
- sefydliadau'r cyfryngau.

24 Mae prosiect CLAE yn cydlynu pedwar adolygiad cysylltiedig ar bolisi gorfodi, systemau monitro, trefniadau archwilio a Chytundeb Fframwaith Awdurdodau Lleol, a rheolaethau newydd ar gyfer cynhyrchu bwyd ar y fferm.

Partneriaethau rhyngwladol

5.14 Caiff dros 90% o gyfraith bwyd ei negodi o fewn yr Undeb Ewropeaidd, a chaiff canran fawr o fwyd ei mewnforio. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol â Chyngor, Comisiwn a Senedd Ewrop, ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.

5.15 Yn ogystal â'n cysylltiadau yn yr UE, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau rhyngwladol ehangach er mwyn dylanwadu ar y safonau a bennir ar gyfer nwyddau a gaiff eu masnachu'n fyd-eang ac, yn benodol, drwy waith y Comisiwn Codex Alimentarius.[25]

Partneriaethau sector cyhoeddus

5.16 Er mwyn sicrhau y caiff materion diogelwch bwyd ac iechyd deietegol eu trin yn effeithiol byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau eraill o Lywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus yn genedlaethol yn y gwledydd datganoledig, yn rhanbarthol ac yn lleol ledled y DU. Byddwn yn parhau i gynghori a gweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Hyrwyddo Diogelwch Bwyd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon ar faterion bwyd sy'n berthnasol i Iwerddon gyfan, megis salwch a gludir gan fwyd.

5.17 Rydym hefyd wedi sefydlu timau bach o staff mewn sawl rhanbarth yn Lloegr.[26] Mae ein timau rhanbarthol yn cydlynu gweithgareddau cymorth yr FSA yn y rhanbarthau hyn fel y caiff y blaenoriaethau o ran diogelwch bwyd, bwyta er iechyd a dewis eu cyflawni gyda phartneriaid yn unol â'r cyd-destun lleol.

5.18 Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u cyrff cynrychioliadol a phroffesiynol i ddiogelu defnyddwyr rhag cynhyrchion bwyd anniogel neu anghyfreithlon a gaiff eu cynhyrchu, eu mewnforio a'u gwerthu. Byddwn yn parhau i atgyfnerthu a datblygu ein cysylltiadau ag awdurdodau lleol drwy weithio mewn partneriaeth â hwy i ddatblygu polisi gorfodi newydd.

5.19 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chyllid a Thollau EM, pedair adran amaethyddiaeth y DU, ac awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd ledled y DU i sicrhau bod rheolaethau bwyd a fewnforiwyd ar waith ar y ffin ac mewn mannau eraill.

Partneriaethau diwydiannol a defnyddwyr

5.20 Mae'r Asiantaeth wedi datblygu partneriaethau llwyddiannus iawn â grwpiau defnyddwyr i sicrhau y caiff negeseuon allweddol am ddiogelwch bwyd ac iechyd deietegol eu cyfleu yn y ffordd fwyaf effeithiol a chydlynol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn, gan weithio gyda'r prif sefydliadau defnyddwyr a grwpiau buddiannau cyhoeddus ehangach ledled y DU. Er enghraifft, byddwn yn parhau â'n gwaith llwyddiannus ar yr Ymgyrch Halen ar y cyd â sefydliadau megis Sefydliad Prydeinig y Galon, Consensus Action on Salt and Health a Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Merched. Byddwn yn parhau â'n gwaith â mentrau bwyd cymunedol lleol.

25 Mae'r Comisiwn Codex Alimentarius (CAC) yn gorff rhyng-lywodraethol a noddir ar y cyd gan y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth (FAO) a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

26 Mor belled, rydym wedi lleoli staff yr FSA mewn 4 o'r 9 o swyddfeydd y llywodraeth yn rhanbarthau Lloegr (gogledd-orllewin Lloegr, dwyrain canolbarth Lloegr, de-orllewin Lloegr a de-ddwyrain Lloegr).

5.21 Mae diogelu defnyddwyr yn effeithiol ac annog bwyta'n iach yn dibynnu ar bartneriaethau cryf â'r diwydiant bwyd a'u cyrff cynrychioliadol. Mae'r diwydiant bwyd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y meysydd hyn, ac fel yr amlygwyd mewn penodau blaenorol, rydym yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'r diwydiant i adeiladu ymhellach ar hyn.

5.22 Mae parhau i ddatblygu trefniadau partneriaeth llwyddiannus â'r diwydiant yn allweddol o hyd i ail-gydbwyso'r amgylchedd gorfodi yn un lle ceir dulliau hunan-blismona mwy effeithiol yn unol â rhaglen rheoleiddio gwell y Llywodraeth, a gwella iechyd deietegol y genedl drwy annog defnyddwyr i wneud dewisiadau bwyd iachach.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Sefydlu Pwyllgor UE a Rhyngwladol newydd i nodi sut i wella ein heffeithiolrwydd yn fforymau'r UE a rhai rhyngwladol
- Datblygu strategaeth gorfodi newydd a gwella dulliau cyfathrebu ag awdurdodau lleol
- Datblygu a chytuno ar strategaeth orfodi â phartneriaid lleol ym mhedwar rhanbarth Lloegr lle y mae timau'r FSA wedi'u lleoli, er mwyn gweithio ar ddiogelwch bwyd, bwyta er iechyd a dewis
- Datblygu a chyflawni rhaglen o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol ar ddiogelwch bwyd a bwyta'n iach.

Cyflawni gwerth am arian

5.23 Rhan bwysig o'n gwaith dros y tair blynedd nesaf, yn arbennig yng ngoleuni Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth, fydd y canolbwynt ar wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwaith. Rydym yn ymrwymedig i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud yn barhaus. Caiff hyn ei ddatblygu fel rhan o'n rhaglen newid ac mae'n cynnwys adolygu ein prosesau busnes allweddol, symleiddio ein strwythurau i adlewyrchu'r newid o ddeddfwriaeth sy'n benodol i sector i fframwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg, a gwella systemau TG a systemau corfforaethol eraill i ategu patrymau newydd o gyflawni'r gwaith.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Datblygu rhaglen i gyflawni arbedion blynyddol o 5% mewn termau real dros y tair blynedd nesaf (o ran gwariant rhaglenni a gwariant gweinyddol)
- Adolygu ein hymagwedd tuag at ddyrannu adnoddau i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian o'r adnoddau sydd ar gael.

Cyflawni mewn ffordd gynaliadwy

5.24 Ein cylch gwaith yw diogelu buddiannau defnyddwyr o ran bwyd, nawr ac yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried goblygiadau datblygu cynaliadwy ein gweithgareddau a'n penderfyniadau o ran polisïau. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ystyried goblygiadau cynaliadwyedd unrhyw bolisïau newydd neu bolisïau diwygiedig (drwy asesiadau effaith reoleiddiol) ac yn cynnal y sefydliad mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Cyhoeddi adroddiad i ddangos ein cyflawniadau o ran datblygu cynaliadwy a'r targedau cynaliadwyedd rydym wedi eu cyflawni.

Datblygu ein pobl

5.25 Un o'r ffactorau allweddol o ran ein gallu i ddarparu gwasanaethau a chyngor o safon i ddefnyddwyr a'r diwydiant yw sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw pobl uchel eu cymhelliant ag ymdeimlad cyffredin o gyfeiriad a diben. Mae gennym lawer o bobl fedrus sy'n ymrwymedig i wella eu perfformiad a pherfformiad yr Asiantaeth. Rydym am ddatblygu ffyrdd mwy hyblyg o weithio er mwyn annog creadigrwydd, a chydnabod eu cyfraniad. Byddwn yn gwella ein perfformiad a'n prosesau rheoli fel y gallwn gynorthwyo ein staff a chynnig y cyfleoedd datblygu priodol iddynt.

5.26 Mae nodau ein rhaglen newid a'n strategaeth Adnoddau Dynol yn cyfateb i'r athroniaeth Buddsoddwyr mewn Pobl ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr Asiantaeth yn cynnal y Safon Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Tachwedd 2007.

5.27 Rydym hefyd yn ymrwymedig i greu a chynnal amgylchedd cynhwysol. Mae hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a gwerthfawrogi amrywiaeth yn helpu i'n gwneud yn fwy effeithiol wrth ddeall ein defnyddwyr amrywiol, ac yn y pendraw, wrth gyflawni ein gweledigaeth o fwyd diogel a bwyta'n iach i bawb.

Ymhlith ein gweithgareddau ar gyfer 2007/08 mae:

- Adolygu ein strategaeth Adnoddau Dynol i sicrhau bod gennym y polisïau a'r arferion sydd eu hangen i ddiwallu anghenion yr Asiantaeth a'n staff
- Darparu Rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer uwch reolwyr, a lansio Rhaglen Reoli ar gyfer rheolwyr canol
- Cyflwyno cynllun i gefnogi dulliau newydd o gydnabod a gwobrwyo staff
- Ennill cydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Pobl yn erbyn y safon Buddsoddwyr mewn Pobl newydd.

Atodiad A

Cynllun Corfforaethol 2007-2010



Nodyn ar gylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn perthynas â bwyd

1. Diffinnir 'bwyd' yn adran 1(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae'r adran honno wedi'i diwygio ac mae bellach yn nodi bod gan 'bwyd' yr un ystyr ag yn Rheoliad Bwyd Cyffredinol y CE Rhif 178/2002. Dyma ddeddfwriaeth diogelwch bwyd sylfaenol y CE sydd bellach yn sail i bob un o gyfreithiau diogelwch bwyd modern y CE, a thrwy hynny yn sail i'n deddfwriaeth ddomestig.
2. Mae erthygl 2 o Reoliad 178/2002 yn nodi ystyr 'bwyd' (fe'i symleiddiwyd isod):

   Ystyr 'bwyd' yw unrhyw sylwedd neu gynnyrch, boed wedi'i brosesu, ei brosesu'n rhannol neu heb ei brosesu, y bwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl neu y disgwylir yn rhesymol iddo gael ei fwyta gan bobl.

   Mae 'bwyd' yn cynnwys diod, gwm cnoi ac unrhyw sylwedd, gan gynnwys dŵr, a gaiff ei gynnwys yn fwriadol yn y bwyd yn ystod y broses o'i weithgynhyrchu, ei baratoi neu ei drin.

   Nid yw 'bwyd' yn cynnwys:

   (a) porthiant anifeiliaid;

   (b) anifeiliaid byw oni bai eu bod wedi'u paratoi i'w rhoi ar y farchnad i'w bwyta gan bobl;

   (c) planhigion cyn eu cynaeafu;

   (ch) meddyginiaethau;

   (d) cosmetigau;

   (dd) tybaco a chynhyrchion tybaco;

   (e) sylweddau narcotig neu seicotropig;

   (f) gweddillion a halogion.
3. Cylch gwaith yr Asiantaeth, a nodir yn Neddf Safonau Bwyd 1999, yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau o ran bwyd a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae Rheoliad 178/2002 y CE hefyd yn cynnwys darpariaethau ar borthiant anifeiliaid ac mae cylch gwaith yr Asiantaeth hefyd yn ymestyn i faterion diogelwch porthiant anifeiliaid.

Atodiad B

Gwybodaeth am Berfformiad



Cyflwyniad

Rhennir y tabl canlynol yn dair thema sef diogelwch bwyd, bwyta er iechyd a dewis, ynghyd â'n dulliau cyflawni sylfaenol. Nodir y canlyniad (neu'r nod) rydym am ei gyflawni fel pennawd ar gyfer pob thema.

Mae'r amcanion yn gam cyntaf tuag at ehangu ac esbonio ein nodau cyffredinol i gyflawni'r canlyniadau/nodau mewn ffordd ymarferol.

Mae'r dangosyddion perfformiad yn mesur pa mor dda rydym yn ei wneud ac yn nodi graddau ein cyflawniadau.

Mae'r targedau yn nodi ein cyflawniad dymunol drwy ddangos yr allbwn yn erbyn y dangosydd perfformiad. Maent yn deillio o'r amcanion, y strategaethau a'r dangosyddion perfformiad a sefydlwyd i fesur llwyddiant. Maent yn helpu i ddiffinio'r amcanion yn fwy manwl, yn nodi'r blaenoriaethau o fewn yr amcanion ac yn nodi'r camau ar y ffordd i gyflawni amcan.

Dengys y tablau y targedau tymor hwy (cynllun strategol) a thymor byr (cynllun corfforaethol) a'r modd y maent yn cydweddu â'i gilydd.

ATODIAD B
DIOGELWCH BWYD

Canlyniad: Gwella iechyd y cyhoedd drwy wneud bwyd yn fwy diogel

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Lleihau achosion o salwch a gludir gan fwyd ymhellach	Lleihau nifer yr achosion o ieir a gynhyrchir yn y DU sy'n cael canlyniad cadarnhaol mewn prawf am Campylobacter ar adeg eu gwerthu	Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau gostyngiad o 50% yn nifer yr achosion o ieir a gynhyrchir yn y DU sy'n cael canlyniad cadarnhaol mewn prawf am Campylobacter erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010	Rheoli prosiect gwyliadwriaeth mewn safleoedd manwerthu 2007, a fydd yn dechrau ym mis Mai 2007, gan sicrhau ein bod yn derbyn adroddiadau interim priodol yn rheolaidd		Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008, cyhoeddi canlyniadau'r prosiect gwyliadwriaeth mewn safleoedd manwerthu ac adolygu'r strategaeth bresennol yng ngoleuni data'r prosiect hwn a data'r arolwg niferoedd preiddiau cenedlaethol a chael opsiynau arfaethedig ar gyfer rheoli achosion o campylobacter mewn ieir yn y dyfodol		Judith Hilton	
	Lleihau nifer yr achosion o foch sy'n cael canlyniad cadarnhaol mewn prawf am Salmonela adeg eu lladd	Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau gostyngiad o 50% yn nifer yr achosion o foch sy'n cael canlyniad cadarnhaol mewn prawf am Salmonela adeg eu lladd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010	Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007, darparu mesurau sylfaenol ac opsiynau ar gyfer monitro cynnydd tuag at ein targed strategol o leihau nifer yr achosion o foch sy'n cael canlyniad cadarnhaol mewn prawf am Salmonela 50%				Alick Simmons	
	Sicrhau gwelliannau mewn hylendid lladd-dai	Byddwn yn sicrhau gwelliannau mewn hylendid lladd-dai erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010	Ymgynghori ar fesurau hylendid mewn lladd-dai arfaethedig erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007		Ymgynghori ar darged ar gyfer sicrhau gwelliannau o ran hylendid mewn lladd-dai erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008		Alick Simmons	
	Sicrhau cydymffurfiaeth well mewn busnesau bwyd	Gan weithio gyda rhanddeiliaid, byddwn yn rhoi canllawiau a chymorth i helpu busnesau manwerthu ac arlwyo bach. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010, bydd pob busnes bwyd yn mynd ati i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion rheoli diogelwch bwyd a bydd o leiaf 75% yn cydymffurfio â hwy'n llawn	Sicrhau cymorth grant Bwyd mwy diogel gwell busnes Awdurdodau Lleol i 50,000 o fentrau bach a chanolig erbyn diwedd mis Mawrth 2008				Tom Murray	
			Gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau gwobrwyo hylendid presennol i arlwywyr erbyn diwedd mis Hydref 2007 ac, os bydd y canlyniadau yn gadarnhaol, eu defnyddio i hyrwyddo'r cynlluniau yn fwy cyffredinol				Julie Monk	
			Newid y ffordd rydym yn cyflwyno adroddiadau ar weithgareddau gorfodi Awdurdodau Lleol er mwyn cydnabod eu rolau addysgol a chynghori pwysig wrth helpu busnesau lleol i ddarparu safonau diogelwch bwyd gwell, a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i wella cywirdeb, prydlondeb a pherthnasedd data perfformiad Awdurdodau Lleol. Byddwn yn cyflwyno system monitro a chyflwyno adroddiadau newydd erbyn mis Rhagfyr 2007		Awdurdodau Lleol i roi system monitro a chyflwyno adroddiadau newydd ar waith erbyn 1 Ebrill 2008	Cofnodi data perfformiad o dan y system monitro a gorfodi cyfraith bwyd newydd ar gyfer Awdurdodau Lleol (yn seiliedig ar ddata 2008/09) erbyn gaeaf 2009/10	Julie Monk	
			Cynnal ymweliadau cymeradwyo â 100% o'r safleoedd cig presennol yn y DU a 100% o'r safleoedd cig ychwanegol yn y DU y mae angen eu cymeradwyo o dan Reoliad 853/2004 yr UE erbyn diwedd mis Mawrth 2008				Alick Simmons	
	Mae dulliau mesur clefydau a gludir gan fwyd a datganiadau cyhoeddus amdanynt yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn drwy ganlyniadau'r ail astudiaeth o glefydau perfeddol heintus 3 blynedd		Caiff yr astudiaethau peilot ar gyfer rhannau arfaethedig ac ôl-weithredol yr ail astudiaeth o Glefydau Perfeddol Heintus eu cwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007 a bydd adroddiad yr astudiaeth beilot ar gael erbyn diwedd mis Mawrth 2008		Bydd prif gyfnodau casglu data y rhannau arfaethedig ac ôl-weithredol o'r ail astudiaeth o Glefydau Perfeddol Heintus yn dechrau yn ystod gwanwyn 2008. Bydd dadansoddiadau o'r data a gasglwyd yn ystod y cyfnodau hyn yn cael eu cynnal yn ystod gaeaf 2008 a byddant ar gael erbyn gwanwyn 2009	Cwblhau cyfnod casglu data'r ail astudiaeth o Glefydau Perfeddol Heintus	Judith Hilton	

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

Canlyniad: Gwella iechyd y cyhoedd drwy wneud bwyd yn fwy diogel

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Lleihau achosion o salwch a gludir gan fwyd ymhellach	Ymwybyddiaeth well o negeseuon hylendid bwyd ymhlith defnyddwyr		Adolygu'r prosiectau a chynllun grant Awdurdodau Lleol 2007 a lansio cynllun arall erbyn gwanwyn 2008 os yw hynny'n briodol				Judith Hilton	
			Cyflawni un prif gyfnod o weithgarwch tymhorol wedi'i dargedu ar gyfer y cyfryngau er mwyn hyrwyddo'r 4 egwyddor o hylendid bwyd da erbyn mis Mawrth 2008					
			Cwblhau'r gwaith o ail-frandio Wythnos Diogelwch Bwyd 2008 a'r cynlluniau ar ei chyfer erbyn diwedd mis Mawrth 2008					
Darparu rheolaethau BSE a TSE cymesur yn seiliedig ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf	Mae rheolaethau BSE a TSE cymesur ac effeithiol yn y gadwyn fwyd yn diogelu iechyd y cyhoedd	Byddwn yn hyrwyddo ac yn helpu'r gwaith o ddatblygu prawf byw sensitif, cyflym a chost-effeithiol ar gyfer TSEs erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010	Cwblhau trafodaethau a chomisiynu gwaith ymchwil ar brofion diagnostig TSE a ddeilliodd o waith ymchwil 2006, erbyn diwedd mis Gorffennaf 2007		Monitro cynnydd gwaith ymchwil TSE yn erbyn cerrig milltir cytûn a throbwyntiau mewn contractau ymchwil, gan werthuso'r potensial am ddatblygiadau masnachol llwyddiannus		Alison Gleadle	
			Cwblhau adolygiad o bolisi wrth gefn yr FSA ar gyfer BSE a defaid, a chwblhau'r gwaith o ddatblygu cynllun wrth gefn yr FSA ar gyfer ymateb i ganfyddiad posibl bod clefyd y crafu annodweddiadol yn peri risg i iechyd pobl, erbyn diwedd mis Medi 2007					
Lleihau'r risgiau i ddefnyddwyr yn sgil halogi bwyd	Gwella'r broses o nodi ac ymateb i risgiau o fwyd wedi ei halogi		Parhau i ddatblygu dulliau profi cemegol, sy'n fodd o ddiogelu iechyd y cyhoedd, yn lle'r profion biolegol presennol yn y rhaglen monitro biotocsin mewn pysgod cregyn statudol. Byddwn yn adolygu cynnydd erbyn diwedd mis Hydref 2007, ac yn pennu amserlen i sicrhau y caiff y dulliau newydd eu rhoi ar waith yn yr UE sy'n ystyried yr angen am newid rheoliadol				Tim Foster	
			Erbyn diwedd mis Mawrth 2008, datblygu dulliau chwilio'r gorwelion i nodi risgiau newydd a risgiau sy'n ailymddangos o fwyd wedi ei halogi				Nick Tomlinson	
			Erbyn diwedd mis Mawrth 2008, mewn partneriaeth â'r diwydiant bwyd, datblygu cynnig ar gyfer rhannu data rhwng y diwydiant bwyd a'r Asiantaeth er mwyn helpu i nodi risgiau newydd drwy hyrwyddo'r broses o resymoli hunanarchwiliadau'r diwydiant					
			Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddigwyddiadau gan nodi tueddiadau ac asesu effeithiolrwydd ymyriadau, erbyn diwedd mis Mai 2007		Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddigwyddiadau, erbyn diwedd mis Mai 2008	Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddigwyddiadau, erbyn diwedd mis Mai 2009	Lynne Ridler-Wall	
	Rhoi rheolaethau cymesur, yn seiliedig ar risg, wedi'u targedu ar waith ar gyfer mewnforion bwyd o drydydd gwlad		Adolygu canlyniadau'r gwaith samplu a gwyliadwriaeth a ariannwyd gan yr FSA ac a gynhaliwyd yn 2006/07, erbyn diwedd mis Mai 2007. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau hyn i lunio rhaglen ar gyfer targedu arian ar gyfer gwaith samplu a gwyliadwriaeth 07/08				Sarah Appleby	
			Adolygu gweithgareddau gorfodi bwyd a fewnforir yn 2006/07, a chytuno ar dargedau newydd erbyn 1 Hydref 2007					

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

ATODIAD B

DIOGELWCH BWYD (PARHAD)

Canlyniad: Gwella iechyd y cyhoedd drwy wneud bwyd yn fwy diogel

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Meithrin a chynnal ymddiriedaeth rhanddeiliaid yn y ffordd yr ydym yn trin materion diogelwch bwyd	Ymddiriedaeth gynyddol a mwy o barodrwydd gan randdeiliaid i rannu gwybodaeth am faterion diogelwch bwyd sy'n dod i'r amlwg	Datblygu ymyriadau effeithiol i fynd i'r afael â phroblemau diogelwch bwyd o'r cychwyn cyn iddynt waethygu, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010	Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007, datblygu rhaglen ymgysylltu â'r diwydiant bwyd yn lleol i drafod ffyrdd o atal digwyddiadau yn ymwneud â bwyd		Gweithio gyda'r diwydiant bwyd, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i wella dulliau o atal digwyddiadau yn ymwneud â bwyd erbyn canol 2008		Nick Tomlinson	
	Gwella'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau drwy wella'r gwaith o ymgysylltu â'r diwydiant a rhanddeiliaid Awdurdodau Lleol, gan ddefnyddio rhaglen gymesur o adolygiadau o ddigwyddiadau ac ymarferion i brofi a monitro perfformiad		Hwyluso a chwblhau adolygiad annibynnol o ddigwyddiad Sudan 1 erbyn diwedd mis Medi 2007 ac ymateb i argymhellion erbyn diwedd mis Tachwedd 2007					
			Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007, bydd gennym raglen ymgysylltu ac adolygu digwyddiadau ac ymarferion cysylltiedig datblygedig â rhanddeiliaid allanol				Lynne Ridler-Wall	
Datblygu polisïau a safonau priodol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch a dewis ar gyfer defnyddwyr ag alergeddau bwyd ac anoddefiad bwyd	Cyflwyno cynllun labelu alergeddau bwyd statudol a gwirfoddol er mwyn adlewyrchu'r cyngor gwyddonol diweddaraf ac anghenion polisi		Cwblhau a dechrau hyrwyddo canllawiau ar wybodaeth am alergenau ar gyfer bwydydd nad ydynt wedi'u rhagbecynnu erbyn diwedd mis Medi 2007				Michael Wight	
	Ymwybyddiaeth well o alergedd ac anoddefiad bwyd ym mhob sector o'r diwydiant bwyd ac ymhlith swyddogion gorfodi a defnyddwyr		Cwblhau'r broses o werthuso cyrsiau hyfforddi peilot o ran alergenau ar gyfer swyddogion gorfodi erbyn diwedd mis Mehefin 2007					

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

ATODIAD B

BWYTA ER IECHYD

Canlyniad: Lleihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet drwy helpu defnyddwyr i sicrhau a chynnal deiet cytbwys iachach

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Galluogi defnyddwyr i ddewis deiet iachach a helpu i leihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet	Anogir camau i leihau faint o halen sydd mewn bwydydd	Byddwn yn gweithio gydag adrannau iechyd a rhanddeiliaid eraill i leihau faint o halen a fwyteir gan oedolion yn y DU ar gyfartaledd o'r lefel bresennol sef 9.5g i 6g y dydd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010, ac i leihau faint o halen a fwyteir gan blant, yn unol ag argymhellion oed-benodol y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth, hefyd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010. Byddwn yn monitro cynnydd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed	Ni chafwyd canlyniadau mesuradwy eleni. Byddwn yn treialu methodolegau peilot ar gyfer y Strategaeth Deiet a Maeth Genedlaethol (NDNS)		Dechrau gwaith maes yr NDNS erbyn diwedd mis Ebrill 2008	Cyhoeddi lefelau deietegol yr NDNS ar gyfer 2008/09 erbyn diwedd mis Rhagfyr 2009	Rosemary Hignett	Cynnal gwaith ymchwil a gwyliadwriaeth mewn perthynas â deiet ac anghydraddoldebau yn yr Alban yn unol â gweithdrefnau ac amserlenni arfer gorau.
			Ni chafwyd canlyniadau mesuradwy eleni. Byddwn yn mesur faint o halen a fwyteir drwy ddadansoddi arolwg wrinol. Byddwn yn parhau i weithio gyda chwmniau i'w hannog i ail-lunio cynnyrch a darparu data ar ostyngiadau		Adolygu cynnydd o ran targedau halen erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008			
	Ymwybyddiaeth defnyddwyr o bwysigrwydd lleihau faint o halen a fwyteir		Gweithio gyda 14 o Sefydliadau Anllywodraethol ar brosiectau sy'n atgyfnerthu neges cam III o'r ymgyrch halen erbyn diwedd mis Mawrth 2008				Rosemary Hignett	Gwella ymwybyddiaeth ymhlith cyrff anllywodraethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn unol â'r Pencadlys
	Anogir camau i leihau faint o fraster dirlawn sydd mewn bwydydd	Byddwn yn gweithio gydag adrannau iechyd ac adrannau a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu a gweithredu, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008, strategaeth ar gyfer y caloriau a fwyteir sy'n cyfrannu at sicrhau cydbwysedd rhwng y caloriau a fwyteir a'r egni a ddefnyddir	Cytuno ar strategaeth ar y bwydydd a fwyteir sy'n cynnwys braster dirlawn ac sy'n rhoi egni erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007		Nid oes targed dangosol ar hyn o bryd. Byddwn yn ychwanegu targedau gweithredu pan fyddwn wedi cytuno ar y strategaeth		Rosemary Hignett	
	Dealltwriaeth defnyddwyr o bwysigrwydd rheoli faint o fraster dirlawn a fwyteir	Byddwn yn gweithio gydag adrannau iechyd a rhanddeiliaid eraill i leihau faint o fraster dirlawn a fwyteir ar gyfartaledd (gan bawb o 5 oed a hŷn) o'r lefel bresennol sef 13.4% i lai nag 11% o egni bwyd, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010	Cynnal gwaith ymchwil i ddefnyddwyr erbyn diwedd mis Medi 2007 sy'n archwilio dealltwriaeth defnyddwyr o arwyddocâd y lefelau o fraster dirlawn a fwyteir				Rosemary Hignett	
Annog gwybodaeth faethol glir a chywir ar labeli	Gwella labelu maeth ar fwyd	Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008, byddwn wedi cwblhau'r gwerthusiad annibynnol o effeithiau labelu ar flaen pecynnau ar ymddygiad prynu a gwybodaeth defnyddwyr a byddwn wedi dechrau trafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch ffyrdd o weithredu yn y dyfodol	Gweithredu rheolau newydd yr UE a chanllawiau ar faeth a honiadau iechyd erbyn diwedd mis Tachwedd 2007				Rosemary Hignett	
			Cyhoeddi manyleb ar gyfer cynnal gwerthusiad annibynnol yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a Grŵp Llywio'r Strategaeth Maeth erbyn diwedd mis Gorffennaf 2007					
			Datblygu a phwysleisio safbwynt negodi'r DU ar gynigion labelu maeth yr UE a gynlluniwyd ar gyfer diwedd mis Rhagfyr 2007					

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

ATODIAD B
BWYTA ER IECHYD (PARHAD)

Canlyniad: Lleihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet drwy helpu defnyddwyr i sicrhau a chynnal deiet cytbwys iachach

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Annog ymwybyddiaeth o ddeiet cytbwys	Rhoddir gwybodaeth a chyngor cywir ar ddeiet a maeth		Ceisio cyngor ar faint o haearn a fwyteir erbyn diwedd mis Mawrth 2008				Rosemary Hignett	
			Cyhoeddi'r Arolwg Deiet a Maeth Incwm Isel (LDNS) erbyn diwedd mis Medi 2007					
			Adolygu p'un a oes angen rhagor o gyngor neu gymryd camau pellach o ran faint o ficrofaethynnau a fwyteir, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007					
			Rhoi cyngor i weinidogion ar wella statws ffolad merched ifanc erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007					
Ategu gwaith adrannau iechyd i newid y ffordd y caiff bwyd ei hyrwyddo i blant	Darparu model proffilio maeth i'w ddefnyddio mewn rheolau ar gyfer hysbysebion teledu i blant		Ni chafwyd canlyniadau mesuradwy eleni. Byddwn yn darparu gweithgareddau cymorth technegol sy'n gysylltiedig â'r Fforwm Hyrwyddo Bwydydd i Blant yn ôl amserlenni y cytunwyd arnynt		Adolygu'r dull proffilio maeth erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008		Rosemary Hignett	
Helpu adrannau iechyd ac adrannau perthnasol eraill i bennu safonau ar gyfer darparu prydau bwyd iach mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'u harchwilio o bryd i'w gilydd, a chefnogi eu gwaith i'w hannog i fabwysiadu'r ymagwedd ysgol gyfan tuag at hylendid bwyd, deiet, maeth a dewisiadau bwyd	Darparu cymorth technegol ar gyfer safonau bwyd newydd mewn ysgolion		Cyhoeddi cymwyseddau bwyd diwygiedig erbyn diwedd mis Medi 2007		Adolygu gofynion manylebau targed maeth technegol ar gyfer bwyd wedi'i weithgynhyrchu a ddefnyddir mewn prydau ysgol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008		Rosemary Hignett	Llunio canllaw ategol drafft ar gyfer Mesur (Hybu Iechyd a Maeth) Ysgolion (Yr Alban) yn ystod 2007 yn unol ag amserlen a bennwyd gan Adran Addysg Gweithrediaeth yr Alban Llunio canllaw ar gyfer gwella darpariaeth bwyd yn y sector cyhoeddus yn yr Alban, gan gynnwys carchardai, ysbytai'r GIG a chartrefi gofal yn ystod 2007 a dechrau 2008 yn unol ag amserlen a bennwyd gan Adran Iechyd Gweithrediaeth yr Alban
Cefnogi cyrff cymunedol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ledled y DU, gan eu helpu i gyflwyno mentrau bwyd lleol effeithiol sy'n diwallu anghenion eu cymuned	Darparu cymorth technegol ar gyfer mentrau bwyd a maeth lleol		Darparu cyngor technegol i gynorthwyo 4 tîm rhanbarthol Lloegr wrth hyrwyddo mentrau maeth lleol effeithiol yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt			Gwerthuso ein gwaith â mentrau bwyd lleol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2009	Rosemary Hignett	Cyflwyno cynllun yn unol ag amserlen y Pencadlys

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

ATODIAD B
DEWIS

Canlyniad: Labelu a gwybodaeth effeithiol er mwyn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg am y bwyd y maent yn ei brynu

	Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
	Galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg	Polisi a chanllawiau effeithiol a pherthnasol ar labelu a samplu bwyd		Cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar Wlad y Tarddiad a Thermau Marchnata erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007				Michael Wight	Byddwn yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban (SEERAD) er mwyn sicrhau y caiff deddfwriaeth labelu Gwlad y Tarddiad o ran cig eidion ei rhoi ar waith yn y sector arlwyo yn yr Alban
									Byddwn yn gweithio gydag Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) Gogledd Iwerddon er mwyn cyflwyno cynllun labelu cig eidion gwirfoddol ar gyfer arlwywyr
				Gweithio gyda chyrff gorfodi i bennu arfer gorau a rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar ddulliau samplu ac argymhellion o ran profi bwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau GM erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007				Clair Baynton	
		Ymwybyddiaeth well o safonau hylendid bwyd mewn allfeydd bwyd	Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008, byddwn yn argymell cynllun cenedlaethol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth i ddefnyddwyr am hylendid bwyd mewn busnesau bwyd yn seiliedig ar dystiolaeth o gyfres o gynlluniau peilot gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol	Gwerthuso tystiolaeth o gynlluniau peilot 'Scores on the Doors' a chynlluniau eraill, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd erbyn diwedd mis Hydref 2007				Julie Monk	
		Cydymffurfiaeth well mewn busnesau							
		Mae rheolaethau cymesur, yn seiliedig ar risg, wedi'u targedu ar win ar waith		Datblygu, ymgynghori a gweithredu polisi gorfodi ar gyfer safonau gwin erbyn diwedd 2007, i sicrhau bod rheolaethau yn seiliedig ar risg ac wedi'u targedu				Sarah Appleby	
	Byddwn yn pwyso am i ddeddfwriaeth labelu bwyd bresennol y CE gael ei symleiddio o fewn yr adolygiad Ewropeaidd o labelu, ac yn annog ffordd o weithredu sy'n rhoi system labelu a gwybodaeth glir i'r defnyddiwr	Cyflawni strategaeth ymgysylltu effeithiol ar labelu bwyd		Gan ystyried barn rhanddeiliaid, cynrychioli buddiannau'r DU yng ngwaith y Comisiwn Ewropeaidd o ddatblygu cynnig am wybodaeth i ddefnyddwyr, y disgwylir i'r Comisiwn ei gyflwyno erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007		Cynrychioli polisi cytun y DU wrth drafod cynnig y Comisiwn Ewropeaidd am wybodaeth i ddefnyddwyr, yn unol ag amserlen y Comisiwn	Cynrychioli polisi cytun y DU wrth drafod cynnig y Comisiwn Ewropeaidd am wybodaeth i ddefnyddwyr, yn unol ag amserlen y Comisiwn	Michael Wight	

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion Swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

ATODIAD B
DEWIS (PARHAD)

Canlyniad: Labelu a gwybodaeth effeithiol er mwyn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg am y bwyd y maent yn ei brynu (parhad)

	Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
	Sicrhau bod y gwaith o reoleiddio ychwanegion bwyd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'i fod yn gymesur, er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud dewisiadau hyddysg	Cyflawni strategaeth ymgysylltu effeithiol ar ychwanegion bwyd		Datblygu strategaeth lobio'r DU yn unol ag amserlen y Comisiwn				Clair Baynton	
	Diogelu defnyddwyr rhag twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon	Nodi camau effeithiol i fynd i'r afael â thwyll bwyd ac arferion anghyfreithlon a sicrhau y cânt eu cymryd	Byddwn yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i gyflawni argymhellion y Tasglu Twyll Bwyd sydd i'w cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun Strategol hwn	Cyflwyno adroddiad ar argymhellion terfynol y Tasglu Twyll Bwyd erbyn diwedd mis Hydref 2007 a llunio cynllun gweithredu i ddatblygu'r argymhellion o fewn 2 fis i'r adroddiad				Julie Monk	

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion Swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

ATODIAD B
EIN DULLIAU CYFLAWNI

Canlyniad: Cyflawni ein cyfrifoldebau fel un o Adrannau Anweinidogol y Llywodraeth a chorff rheoleiddio annibynnol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Bod yn gorff rheoleiddio effeithiol a chymesur, gan ymyrryd i ddiogelu defnyddwyr a'u buddiannau, pan nad yw'r farchnad yn effeithiol a lle y mae'r manteision yn cyfiawnhau camau gweithredu	Cyfraith bwyd fwy effeithiol a haws ei deall	Ar gyfer rheoliadau sy'n ymwneud â'r DU y mae gan y DU rywfaint o reolaeth dros eu gweithredu, byddwn yn lleihau'r baich gweinyddol net £11.9 miliwn erbyn mis Ebrill 2010, o gymharu â llinell sylfaen mis Mai 2005 ar gyfer rheoliadau o'r fath, sef £47.6 miliwn	Cyhoeddi ein cynllun symleiddio treigl yn flynyddol		Cyhoeddi ein cynllun symleiddio treigl yn flynyddol	Cyhoeddi ein cynllun symleiddio treigl yn flynyddol	Steve Wearne	
			Cydymffurfio 100% â Chod Ymarfer ar Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet		Cydymffurfio 100% â Chod Ymarfer ar Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet	Cydymffurfio 100% â Chod Ymarfer ar Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet	Steve Wearne	Byddwn yn cynnwys cydymffurfio gyda gofynion ychwanegol canllawiau Ymgynghori Gweithrediaeth yr Alban ar gyfer ymgynghoriadau yn yr Alban
Adolygu'r trefniadau ar gyfer adennill costau o'r rhannau hynny o'r diwydiant bwyd y mae'r FSA yn ymgymryd â rheolaethau ar eu cyfer er mwyn symud yn gynyddol tuag at sefyllfa lle y caiff costau eu hadennill yn llawn lle y bo'n briodol ac yn ymarferol	Lleihau'r gyfran o gostau rheoli y telir amdanynt o gronfeydd cyhoeddus yn gynyddol		Gweithredu darpariaethau codi tâl y Rheolaethau Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid Swyddogol mewn safleoedd cig, erbyn diwedd mis Ionawr 2008				Alick Simmons	
			Adolygu priodoldeb y lefelau presennol o oruchwylio Deunydd Risg Penodedig (SRM) a chyda'r MHS, datblygu system newydd yn seiliedig ar archwilio ar gyfer rheolaethau SRM i adlewyrchu gofynion y rheoliadau hylendid newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2008		Datblygu system codi tâl ar gyfer goruchwylio Deunydd Risg Penodedig (SRM), i'w rhoi ar waith erbyn diwedd mis Ebrill 2008		Alison Gleadle	
Cyflwyno camau gweithredu effeithiol o ran risgiau i iechyd y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, drwy gydweithio'n well â'n partneriaid ym meysydd gorfodi a busnes ac yn y sector gwirfoddol	Cydymffurfiaeth well mewn busnesau		Datblygu dull gorfodi newydd trwy ein strategaeth orfodi â'r nod o wella cydymffurfiaeth mewn busnesau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal 4 adolygiad mawr o bolisi gorfodi, monitro, archwilio a'r cytundeb fframwaith trwy'r prosiect Newidiadau i Gamau Gorfodi Awdurdodau Lleol (CLAE), erbyn diwedd mis Mawrth 2008		Gwaith parhaus i gyflawni ein strategaeth orfodi. Targed i'w ddatblygu		Julie Monk	
	Datblygu rhagor o Ddangosyddion Perfformiad							
Datblygu ymhellach seilwaith sy'n ein galluogi i gydweithio'n well â sefydliadau'r UE a sefydliadau rhyngwladol a chyflwyno'r seilwaith hwnnw	Adnoddau a gallu gwell i ymgymryd â busnes yr UE a busnes rhyngwladol yn effeithiol		Bwrdd Rheoli Gweithredol newydd y Pwyllgor UE a Rhyngwladol i adolygu effeithiolrwydd darpariaeth dysgu a datblygu'r Asiantaeth ar faterion yr UE a materion rhyngwladol erbyn diwedd mis Medi 2007				Steve Wearne	

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion Swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

Canlyniad: Cyflawni ein cyfrifoldebau fel un o Adrannau Anweinidogol y Llywodraeth a chorff rheoleiddio annibynnol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol (parhad)

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Datblygu ymhellach seilwaith sy'n ein galluogi i gydweithio'n well â llywodraeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU, ac â grwpiau lleol a chymunedol a chyflwyno'r seilwaith hwnnw	Adnoddau a gallu gwell i weithio ar draws pob un o'r pedair gwlad yn y DU		Cynnal gwerthusiad bob chwe mis (erbyn diwedd mis Medi 2007 a diwedd mis Mawrth 2008) o effaith datganoli a chyrsiau hyfforddi datblygu polisi ar newid ymddygiadol drwy asesu'r modd y mae pobl wedi cymhwyso'r dysgu o'r cyrsiau i'w gwaith pob dydd gan ddefnyddio model Kirkpatrick				Brian Davies	
			Canfyddiadau staff o'r cydweithrediad rhwng y Pencadlys a'n swyddfeydd yn y gwledydd datganoledig i gynyddu o 44% (ffigur 2006) i 54%, drwy arolwg staff hydref 2007					
			Pob gweithdrefn gweithredu gorfforaethol i bwysleisio ei bod yn ofynnol i'r Asiantaeth gydweithio ar draws swyddfeydd ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU					
	Adnoddau a gallu gwell i weithio gyda phartneriaid lleol yn rhanbarthau Lloegr		Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007, cytuno ar strategaeth ymgysylltu ar ddiogelwch bwyd, bwyta'n iach a dewis gyda'r partneriaid a'r rhanddeiliaid allweddol a nodwyd ym mhob un o'r 4 rhanbarth yn Lloegr lle mae gan yr FSA swyddfa				Tom Murray	
			Erbyn diwedd mis Mawrth 2008, darparu rhaglen o ddigwyddiadau rhanbarthol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid rhanbarthol/lleol i hyrwyddo blaenoriaethau'r FSA o ran diogelwch bwyd a bwyta'n iach, cynnal o leiaf 4 digwyddiad partneriaeth ym mhob un o'r 4 rhanbarth yn Lloegr lle mae gan yr FSA swyddfa					
Sicrhau bod yr FSA yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol amrywiol ac yn cyflawni ei rôl fel un o adrannau Llywodraeth y DU, gan wneud hynny mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol	Trawsnewid y ffordd y caiff rhaglenni a gwasanaethau eu darparu i gyfateb yr adnoddau sydd ar gael i flaenoriaethau'r Bwrdd a gwella gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus		Datblygu strategaeth ariannol erbyn diwedd mis Mehefin 2007 i ategu setliad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, rhaglen cyflawni newid gysylltiedig erbyn diwedd mis Medi 2007, a strategaeth TG galluogi erbyn diwedd mis Tachwedd 2007				Allan Hutton/ Teresa O'Reilly	
	Llywodraethu corfforaethol effeithiol		Rhagolwg o wariant y DU i fod o fewn 2% i'r alldro gwirioneddol ar y cam monitro ym mis Ionawr				Allan Hutton	
			Barn archwilio ddiamod, cyn toriad haf y Senedd		Barn archwilio ddiamod, cyn toriad haf y Senedd	Barn archwilio ddiamod, cyn toriad haf y Senedd	Allan Hutton	
			Cyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y targedau datblygu cynaliadwy a gyflawnwyd a'r cyflawniadau a wnaed o ran cynaliadwyedd erbyn diwedd mis Ebrill 2007		Cyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y targedau datblygu cynaliadwy a gyflawnwyd a'r cyflawniadau a wnaed o ran cynaliadwyedd erbyn diwedd mis Ebrill 2008	Cyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y targedau datblygu cynaliadwy a gyflawnwyd a'r cyflawniadau a wnaed o ran cynaliadwyedd erbyn diwedd mis Ebrill 2009	Michael Wight/ Allan Hutton	
			Bodloni gofynion statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg, Cysylltiadau Hiliol, Gwahaniaethu ar sail Anabledd, Cydraddoldeb, Rhyddid Gwybodaeth, Datgelu er Lles y Cyhoedd a'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio		Nodi perfformiad yn yr Adroddiad Blynyddol	Nodi perfformiad yn yr Adroddiad Blynyddol	Teresa O'Reilly/ Vivienne Collett	

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion Swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

Canlyniad: Cyflawni ein cyfrifoldebau fel un o Adrannau Anweinidogol y Llywodraeth a chorff rheoleiddio annibynnol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol (parhad)

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Sicrhau bod yr FSA yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol amrywiol ac yn cyflawni ei rôl fel un o Adrannau Llywodraeth y DU, gan wneud hynny mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol	Rhoi deddfwriaeth y CE ar waith yn effeithiol		Rhoi deddfwriaeth y CE ar waith yn effeithiol ac yn brydlon yn unol â'r safonau gwasanaeth Is-adran y Gyfraith ar gyfer drafftio Offerynnau Statudol, gan gynnwys cydymffurfio ag egwyddorion Rheoleiddio Gwell				Vivienne Collett	
	Cynnal ymchwiliadau ac erlyniadau effeithiol o droseddau hylendid cig a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar dueddiadau o bwys		Cynnal ymchwiliadau a pharatoi ar gyfer erlyniadau mewn achosion lle mae'r Asiantaeth yn gweithredu fel yr awdurdod gorfodi (neu lle y mae'n gweithredu ar ran Defra) yn unol â safonau gwasanaeth Is-adran y Gyfraith ar gyfer ymchwiliadau					
Byddwn yn parhau i fod yn sefydliad agored yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ein llais annibynnol i ddiogelu defnyddwyr	Atgyfnerthu'r gwaith o lywodraethu gwyddoniaeth a thystiolaeth arall yr Asiantaeth wrth wneud penderfyniadau		Cyhoeddi adroddiad blynyddol a chynllun gweithredu'r Prif Wyddonydd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd, erbyn diwedd mis Mai, a fydd yn uno'r holl agweddau gwahanol ar waith Llywodraethu Gwyddoniaeth yr Asiantaeth				David Atkins/ Julie Norman	
			Sefydlu'r Pwyllgor Cynghori Cyffredinol ar Wyddoniaeth mewn pryd ar gyfer cynnal cyfarfod cyntaf erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007				Derrick Jones	
			Sefydlu Pwyllgor Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol erbyn diwedd mis Mawrth 2008					
			Sefydlu Pwyllgor Cynghori Cyffredinol ar Ymgysylltu â Defnyddwyr mewn pryd ar gyfer cynnal cyfarfod cyntaf erbyn diwedd mis Rhagfyr 2007				Terrence Collis	
	Cyflawni corff o waith ymchwil i ddiwallu anghenion a nodwyd sy'n sail i ddarpariaeth polisi ar draws yr Asiantaeth		Caffael a rheoli rhaglenni ymchwil a gwerthuso rhaglenni goruchwyliaeth yn unol â chanllawiau arfer gorau a defnyddio'r broses Blaenoriaethu Ymchwil beilot i helpu i wneud y defnydd gorau o arian sydd ar gael ar gyfer gwaith o'r fath yn 08/09 a thu hwnt				Derrick Jones	
	Cyflawni rhaglen waith i ddatblygu ymhellach bolisi ac arferion yr FSA o ran bod yn agored		Cynnal astudiaeth ddichonoldeb o fodeli gwahanol o gyfarfodydd Bwrdd agored mynediad cyffredinol, a gwneud cynigion wedi'u costio am gyfarfodydd rheolaidd ar thema benodol a chyfarfod atebolrwydd blynyddol, a chyflwyno adroddiad ar bob un ohonynt i'r Bwrdd erbyn diwedd mis Hydref 2007				Alastair Cannon/ Steve Wearne	
			Dosbarthu ymatebion i'r ceisiadau am Ryddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn terfynau amser mewn o leiaf 90% o achosion		Dosbarthu ymatebion i'r ceisiadau o ran Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn terfynau amser mewn o leiaf 90% o achosion	Dosbarthu ymatebion i'r ceisiadau o ran Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn terfynau amser mewn o leiaf 90% o achosion		

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion Swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.

ATODIAD B

EIN DULLIAU CYFLAWNI (PARHAD)

Canlyniad: Cyflawni ein cyfrifoldebau fel un o Adrannau Anweinidogol y Llywodraeth a chorff rheoleiddio annibynnol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol (parhad)

Amcan	Dangosydd Perfformiad	Targed y Cynllun Strategol	Targed Cynllun Corfforaethol 2007-2008		Targed Cynllun Corfforaethol 2008-2009	Targed Cynllun Corfforaethol 2009-2010	Swyddog Arweiniol	Targedau cysylltiedig ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (os ydynt yn wahanol i dargedau'r Cynllun Corfforaethol)[1]
Sicrhau mai ni yw'r ffynhonnell cyngor a ddefnyddir amlaf ac yr ymddiriedir ynddi fwyaf ym maes diogelwch bwyd a gwybodaeth am fwyd a maeth	Cynnal lefel uchel o ymddiriedaeth defnyddwyr yn yr Asiantaeth, mapio ymatebion defnyddwyr i negeseuon yr FSA drwy ddangosyddion megis nifer yr ymwelwyr â'r wefan, gwerthusiadau o ymgyrchoedd, Arolwg o Agweddau Defnyddwyr, sylw yn y cyfryngau ac ati		Ceisio cynnal y lefel gymharol uchel o ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr (+/- 5% o fesur 2006), yn ôl mesur yr arolwg o Agweddau Defnyddwyr				Terrence Collis	
			Er mwyn mesur ymddiriedaeth yng ngwybodaeth a chyngor yr Asiantaeth, sicrhau cynnydd 5% (ar linell sylfaen 2006/07) yng nghyfanswm nifer yr ymwelwyr â holl wefannau'r Asiantaeth (food.gov.uk, salt.gov.uk, eatwell.gov.uk), erbyn diwedd mis Mawrth 2008					
Bod yn gyflogwr da, gan fanteisio i'r eithaf ar ein talent amrywiol a chyflwyno amgylchedd gwaith diogel a chynaliadwy sy'n cydymffurfio â gofynion i staff, contractwyr ac ymwelwyr	Canlyniadau Arolygon Staff gwell		Gwella'r gwaith o reoli perfformiad drwy: gwblhau rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ar gyfer SCS erbyn diwedd mis Mawrth 2008; lansio'r cynllun datblygu ar gyfer rheolwyr canol erbyn diwedd mis Medi 2007; lansio a gwerthuso'r cynllun Hyfforddi a Mentora peilot erbyn diwedd mis Medi 2007				Brian Davies	
			Cwblhau adolygiad o'r strategaeth Adnoddau Dynol erbyn diwedd mis Mehefin 2007					
	Gwneud cynnydd tuag at dargedau Amrywiaeth 2008				Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008, cyflawni'r targedau amrywiaeth canlynol o fewn yr FSA; 45% o staff benywaidd; 6% o staff yn yr SCS i ddod o grŵp lleiafrifoedd ethnig; 6% o staff Gradd 6 a 7 i fod o gefndir lleiafrifol ethnig a 7% o staff yn yr SCS, Gradd 6 a 7 i fod yn staff anabl.			
	Rhoi'r strategaeth addasu ar waith yn llwyddiannus gan ymgysylltu'n llawn â staff		Adolygu'r system a'r cynllun rheoli iechyd a diogelwch erbyn diwedd mis Medi 2007, gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol o fewn amserlen y cytunwyd arni				Allan Hutton	
	Cynnal achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl		Ennill achrediad yn erbyn y safon Buddsoddwyr mewn Pobl newydd ym mis Tachwedd 2007				Brian Davies	

1 Cyfarwyddwyr a swyddogion Swyddfeydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb penodol am gyflawni'r gwaith hwn.



Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu rhagor o gopïau o'r cyhoeddiad hwn neu unrhyw gyhoeddiadau eraill a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn: 0845 606 0667
minicom: 0845 606 0678
ffacs: 020 8867 3225
e-bost: foodstandards@ecgroup.uk.com

Dyfynnwch y cyfeirnod: FSA/1174/0507

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Mai 2007
Dyluniwyd gan Natural
Argraffwyd gan Oakfield Press Ltd

ⓗ Hawlfraint y Goron 2007
Argraffwyd yn Lloegr 1K

www.food.gov.uk